



Fersiwn 2

Mae cadarnhad yn y fersiwn hwn
na fydd rhagor o asesiadau mis Ionawr.


TAG

Arholiadau 2009 ymlaen

Dyfarniad UG Cyntaf: Haf 2009

Dyfarniad Safon Uwch Cyntaf: Haf 2010

Iechyd a Gofal Cymdeithasol
(Gradd Unigol a Dwyradd)



Cynnwys

TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol CBAC (Gradd Unigol a Dwyradd)



	Tudalen
Codau Cofrestru a Darpariaeth yr Unedau	2
Crynodeb o'r Aseiad	3
Rhagarweiniad	5
Nodau	9
Amcanion Aseu	10
Cynnwys y Fanyleb	12
– Uwch Gyfrannol	51
– Safon Uwch	51
Cynllun Aseu	92
Sgiliau Allweddol	94
Disgrifiadau Perfformiad	95
Canllawiau Aseu Mewnol	98

Codau Cofrestru Pwnc/Opsiwn	
<i>Cofrestriad "cyfnewid" Gradd Unigol UG</i>	2621
<i>Cofrestriad "cyfnewid" Dwyradd UG</i>	2622
<i>Cofrestriad "cyfnewid" Gradd Unigol Safon Uwch</i>	3621
<i>Cofrestriad "cyfnewid" Dwyradd Safon Uwch</i>	3622
Uned 1 : Hybu Gofal o Safon a Chyfathrebu	1621
Uned 2 : Hybu Iechyd Da	1622
Uned 3 : Datblygiad y Plentyn: Egwyddorion a Damcaniaethau Twf a Datblygiad (0-8 oed)	1623
Uned 4 : Gweithgareddau Creadigol mewn Amrywiaeth o Leoliadau Gofal	1624
Uned 5 : Deall Unigolion gydag Anableddau	1625
Uned 6 : Deall Afiechydon, Clefydau ac Anhwylderau Cyffredin	1626
Uned 7 : Darpariaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant	1627
Uned 8 : Deall Ymddygiad Dynol	1628
Uned 9 : Gweithio mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1629
Uned 10 : Gofalu am Unigolion Hŷn	1630
Uned 11 : Rôl Therapiau Cyflenwol wrth Ofalu am Unigolion	1631
Uned 12 : Dylanwadau Bwyd a Ffitrwydd ar Iechyd a Lles	1632

Darpariaeth yr Unedau Asesu			
Uned	Ionawr 2009	Mehfin 2009	Mehfin 2010 a phob blwyddyn ddilynol
1621	✓	✓	✓
1622		✓	✓
1623		✓	✓
1624		✓	✓
1625		✓	✓
1626		✓	✓
1627			✓
1628			✓
1629			✓
1630			✓
1631			✓
1632			✓

Rhifau Achredu'r Cymhwyster

Uwch Gyfrannol: 500/4814/4 (Gradd Unigol); 500/4868/5 (Dwyradd)
 Uwch: 500/4867/3 (Gradd Unigol); 500/3615/4 (Dwyradd)

Uned	UG Unigol	UG Dwyradd	Safon Uwch Unigol	Safon Uwch Dwyradd	Asesu
1. Hybu Gofal o Safon a Chyfathrebu	Gorfodol [40%]	Gorfodol [20%]	Gorfodol [20%]	Gorfodol [10%]	Allanol: Arholiad ysgrifenedig
2. Hybu Iechyd da	Gorfodol [60%]	Gorfodol [30%]	Gorfodol [30%]	Gorfodol [15%]	Mewnol: Gwaith cwrs
3. Datblygiad y Plentyn: Egwyddorion a Damcaniaethau Twf a Datblygiad (0-8 oed)	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 3 neu 4) [30%]	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 3 neu 4) [15%]	Mewnol: Gwaith cwrs
4. Gweithgareddau Creadigol mewn Amrywiaeth o Leoliadau Gofal	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 3 neu 4) [30%]	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 3 neu 4) [15%]	Mewnol: Gwaith cwrs
5. Deall Unigolion gydag Anableddau	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 5 neu 6) [20%]	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 5 neu 6) [10%]	Allanol: Arholiad ysgrifenedig
6. Deall Afiechydon, Clefydau ac Anhwylderau Cyffredin	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 5 neu 6) [20%]	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 5 neu 6) [10%]	Allanol: Arholiad ysgrifenedig
7. Darpariaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant	Dd/G	Dd/G	Gorfodol [20%]	Gorfodol [10%]	Allanol: Aseiniad gwaith cwrs
8. Deall Ymddygiad Dynol	Dd/G	Dd/G	Dd/G	Gorfodol [10%]	Allanol: Arholiad ysgrifenedig
9. Gweithio mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Dd/G	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 9,10,11 neu 12) [30%]	Opsiynol (2 o naill ai 9,10,11 neu 12) [15% +15%]	Mewnol: Gwaith cwrs
10. Gofalu am Unigolion Hŷn	Dd/G	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 9,10,11 neu 12) [30%]	Opsiynol (2 o naill ai 9,10,11 neu 12) [15% +15%]	Mewnol: Gwaith cwrs
11. Rôl Therapiau Cyflenwol wrth Ofalu am Unigolion	Dd/G	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 9,10,11 neu 12) [30%]	Opsiynol (2 o naill ai 9,10,11 neu 12) [15% +15%]	Mewnol: Gwaith cwrs
12. Dylanwadau Bwyd a Ffitrwydd ar Iechyd a Lles	Dd/G	Dd/G	Opsiynol (Naill ai 9,10,11 neu 12) [30%]	Opsiynol (2 o naill ai 9,10,11 neu 12) [15% +15%]	Mewnol: Gwaith cwrs


IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

1

RHAGARWEINIAD

1.1 Cymwysterau sydd ar gael

Mae'r diagram yn nodi'r berthynas rhwng y dyfarniadau yn y gyfres hon o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



1.2 Meini Prawf ar gyfer TAG Uwch Gyfrannol ac Uwch

Mae'r fanyleb hon wedi ei chynllunio i gwrdd ag meini prawf cyffredinol TAG Uwch gyfrannol (UG) ac uwch (U) a'r meini prawf pwnc ar gyfer UG/U Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y'u cyhoeddwyd gan AADGOS/QCA [2004]. Bydd y cymwysterau'n cydymffurfio â gofynion graddio, dyfarnu a thystysgrifo'r Cod Ymarfer am gymwysterau 'cyffredinol' (gan gynnwys TAG).

Caiff cymhwyster Gradd Unigol UG ei adrodd ar raddfa pum pwynt; A, B, C, D, ac E.

Caiff cymwysterau Gradd Unigol Safon Uwch eu hadrodd ar raddfa chwe gradd A*, A, B, C, D, ac E. Caiff y cymhwyster Dwyrawd UG ei adrodd ar raddfa naw gradd, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE.

Caiff y cymhwyster Dwyrawd Safon Uwch ei adrodd ar raddfa un radd ar ddeg; A*A*, A*A, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE.

Cofnodir cyrhaeddiad ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosib ar gyfer gradd E fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif. Lefel cyrhaeddiad yr arholiad Uwch Gyfrannol yw'r hyn a ddisgwylir gan ymgeiswyr a fydd wedi cwblhau hanner cyntaf y cwrs Safon Uwch llawn. Caiff y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen am ail hanner cwrs Safon Uwch eu cynnwys yn yr unedau U2. Mae safon y perfformiad a ddisgwylir yn adlewyrchu deunydd mwy heriol U2, gan gynnwys y cysyniadau uwch eu lefel a'r gofyniad i dynnu ynghyd wybodaeth a sgiliau o bob rhan o'r cwrs.

Bydd gan yr unedau asesu UG yr un pwysiad marciau ag ail hanner y cymhwyster (U2). Bydd yr UG a'r U2 yn cael eu hagregu i gynhyrchu'r dyfarniad Uwch.

Gellir ailsefyll yr unedau asesu cyn yr ardystio ar gyfer y cymwysterau UG neu U, ac yn yr achosion hynny, y canlyniad gorau a ddefnyddir ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Bydd oes canlyniadau asesu unigol, cyn eu defnyddio ar gyfer ardystio cymhwyster, yn dibynnu ar oes y fanyleb ei hun, a dim arall.

Mae'r fanyleb a'r deunyddiau asesu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

1.3 Oriau dysgu dan arweiniad

180 yw'r oriau dysgu o dan arweiniad am y TAG UG dwy uned (Gradd Unigol). 360 yw'r oriau dysgu o dan arweiniad am y TAG UG pedair uned (Dwyradd).

360 yw'r oriau dysgu o dan arweiniad am y TAG UG pedair uned (Dwyradd). 720 yw'r oriau dysgu dan arweiniad am y TAG Uwch Gyfrannol wyth uned (Dwyradd).

1.4 Dysgu blaenorol

Dylai ymgeiswyr fod wedi cyrraedd lefel addysg gyffredinol sy'n cyfateb i Lefel 2 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Bydd sgiliau mewn Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/ Cymraeg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'n berthnasol. Bydd astudiaeth flaenorol o TGAU mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Dwyraddl) o fudd i ymgeiswyr ond nid yw'n orfodol; serch hynny, nid oes angen lefel flaenorol o gyrhaeddiad mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y cymhwyster hwn.

1.5 Dilyniant

Mae strwythur y cymhwyster hwn, gan ganiatáu naill ai asesu fesul cam neu ddiwedd y cwrs, yn galluogi ymgeiswyr i ohirio penderfyniadau am ddilyniant o UG i gymhwyster Uwch llawn.

Gellir defnyddio Uwch Gyfrannol (UG) mewn un o ddwy ffordd:

- I arwain at gymhwyster terfynol Uwch Gyfrannol (Gradd Unigol neu Ddwyradd), gan ganiatáu i ymgeiswyr ehangu eu hastudiaethau;
- I ddarparu'r hanner cyntaf (50%) o gymhwyster Safon Uwch (Gradd Unigol neu Ddwyradd).

Mae dwy ran i'r Safon Uwch (U); UG – 50% o ddyfarniad U ac U2 – 50% o'r dyfarniad cyflawn.

Mae UG ac U ar gael fel Gradd Unigol neu Ddwyradd.

Mae'r fanyleb hon yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio lechyd a Gofal Cymdeithasol neu faes cysylltiedig trwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch (e.e. lechyd a Gofal Cymdeithasol, Astudiaethau lechyd y Gymuned, Nyrsio (cofrestredig); dilyniant i lefel nesaf cymwysterau galwedigaethol (e.e. NVQ Lefelau 3 a 4 mewn rheolaeth); neu fynediad uniongyrchol i waith. YN ogystal â hyn, mae'r fanyleb yn cynnig cwrs astudio cydlynus, gwerthfawr, sy'n rhoi boddhad, i fyfyrwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ymhellach

Ni chafodd y cymwysterau hyn eu cynllunio ar gyfer mynediad uniongyrchol ymgeiswyr i waith yn y sector hwn.

1.6 Sail Resymegol

Mae TAG mewn pynciau galwedigaethol yn gymwysterau galwedigaethol eang a gynlluniwyd i ehangu cymryd rhan mewn dysgu ôl-16 sy'n ymwneud â galwedigaeth.

Gwneir hyn trwy sicrhau bod ymgeiswyr yn datblygu'r sgiliau cyffredinol, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen o fewn y sector.

Mae'r fanyleb hon:

- yn fodd o gynnig sail addysgol eang ar gyfer addysg bellach neu ar gyfer symud i waith o fewn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol.
- yn adeiladu ar fframwaith addysgol eang a gyflenwir gan Feini Prawf y Cymhwyster a'r Pwnc.
- yn cynnig llwybr addas ar gyfer dilyniant i ymgeiswyr sy'n cwblhau TGAU lechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Mae ymgeiswyr sy'n cychwyn eu haddysg ffurfiol yn y pwnc ar lefel ôl-16 hefyd yn gallu ymgymryd â'r cwrs astudio.
- Mae TAG UG ac Uwch mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnig cyrsiau gwerthfawr i ymgeiswyr o sawl oed ac o wahanol gefndir o ran addysg gyffredinol a dysgu gydol oes.
- yn defnyddio dull ymchwilgar ac o ddatrys problemau i astudio'r pwnc.
- yn cynnig cyfle i ymgeiswyr ddatblygu sgiliau allweddol ym meysydd Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif, Technoleg Gwybodaeth, Gweithio gydag Eraill, Gwella eu Dysgu a'u Perfformiad Eu Hunain a Datrys Problemau.

Bydd cynnwys yr UG yn canolbwyntio ar anghenion unigolion a'r technegau a'r gwasanaethau proffesiynol sy'n anelu at gwrdd â'r anghenion hyn. Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn y meysydd astudio canlynol:

- hawliau, cyfrifoldebau a gwerthoedd
- cyfathrebu mewn lleoliadau gofal
- iechyd a lles.

Bydd cynnwys U2 yn datblygu cynnwys yr UG trwy roi sylw i'r ffactoru a'r materion sydd ynghlwm wrth gyflwyno gwasanaeth. Caiff ymgeiswyr eu hasesu ar y meysydd astudio canlynol:

- darparu gwasanaeth a rolau ymarferwyr
- deall ymddygiad dynol
- eu gallu i dynnu agweddau o'r meysydd hyn ynghyd mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

1.7 Y Cwricwlwm Ehangach

Dylai astudio lechyd a Gofal Cymdeithasol o ran ei natur gyfrannu at ddealltwriaeth ymgeiswyr o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol, deddfwriaethol, economaidd a diwylliannol; gan gynnwys cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Y mae hefyd yn annog ymgeiswyr i ddeall ac i drafod y penderfyniadau a all ddylanwadu ar bolisïau lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r effaith ddilynol ar les y boblogaeth ac ar ddarparu cefnogaeth yn y gymuned.

Er mwyn deall natur lechyd a Gofal Cymdeithasol, caiff dysgu ei gymhwyso i amrywiaeth o gyd-destunau sy'n ymwneud â gwaith. Gellir gwneud hyn trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys profiad gwaith, cysylltiadau â chyflogwyr lleol, astudiaethau achos ac ymchwil.

1.8 Cyfuniadau a waherddir a gorgyffwrdd

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pynciol y mae'n perthyn. Dylai canolfannau nodi, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TAG gyda'r un cod dosbarthu, mai un radd yn unig (yr uchaf) a gyfrifir at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau. Cod dosbarthu'r fanyleb hon yw 0003.

Nid yw'r fanyleb hon yn gorgyffwrdd yn arwyddocaol ag unrhyw un arall a gynnigir gan CBAC.

1.9 Cydraddoldeb ac Asesu Teg

Mae'r fanyleb hon wedi ei chynllunio i gynnig mynediad teg i bob ymgeisydd ac i leihau unrhyw angen diweddarach i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeisydd sydd â gofynion penodol, tra'n gwarchod manwl gywirdeb y cymhwyster. Nid yw arolwg o'r fanyleb a'r meini prawf rheoliadol y seilir hi arni wedi datgelu unrhyw rwystrau posibl rhag mynediad sy'n codi 'r asesiad sgiliau a dealltwriaeth yn y pwnc.

Ceir manylion y trefniadau arbennig a'r ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr â gofynion penodol yn nogfen y Cyd-Gyngor Cymwysterau *Rheoliadau ac Arweiniad yn ymwneud ag Ymgeiswyr sy'n Gymwys am Addasiadau mewn Arholiadau*. Mae copïau o'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk) ac yn Saesneg ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

2

NODAU

Dylai'r fanyleb UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol annog ymgeiswyr i :

- Ddatblygu a chynnal diddordeb mewn iechyd, gofal blynyddoedd cynnar ac addysg, gofal cymdeithasol a materion sy'n effeithio ar y sector gofal.
- Ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd, gofal blynyddoedd cynnar ac addysg a materion yn effeithio ar y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad effeithiol i'r sector gofal gan gynnwys sgiliau ymchwil, gwerthuso a datrys problemau mewn cyd-destun cysylltiedig â gwaith.
- Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.
- Paratoi ar gyfer astudio a hyfforddiant pellach.

3

AMCANION ASESU

Amcanion Asesu:

Dylai ymgeiswyr ddangos yr amcanion canlynol trwy gydol eu cwrs astudio mewn amrywiaeth o gyd-destunau cysylltiedig â gwaith:

AA1: Gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau

Mae ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol.

AA2: Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau

Mae ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.

AA3: Ymchwil a dadansoddi

Mae ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i gael gwybodaeth o amrywiol ffynonellau. Mae ymgeiswyr yn dadansoddi materion a phroblemau cysylltiedig â gwaith.

AA4: Gwerthuso

Mae ymgeiswyr yn gwerthuso tystiolaeth, yn rhoi eu barn ac yn llunio casgliadau am faterion cysylltiedig â gwaith.

Caiff pwysiad pob amcan asesu ei ddangos fel % o bob cymhwyster y mae'r unedau'n gallu cyfrannu atynt.

Amcanion Asesu: UG Gradd Unigol

UNED	AA1	AA2	AA3	AA4	CYFANSWM
	%	%	%	%	%
1	40	30	15	15	
2	30	30	20	20	
CYFANSWM	34	30	18	18	100

Amcanion Asesu: UG Dwyradd

UNED	AA1	AA2	AA3	AA4	CYFANSWM
	%	%	%	%	%
1	40	30	15	15	
2	30	30	20	20	
3/4	30-40	20-30	20-25	20-25	
5/6	35-40	25-30	15-20	15-20	
Cyfanswm	28-30	26-30	18-20.5	18-20.5	100

Amcanion Asesu: Safon Uwch Gradd Unigol

UNED	AA1	AA2	AA3	AA4	CYFANSWM
	%	%	%	%	%
1	40	30	15	15	
2	30	30	20	20	
7	30	20	25	25	
9-12	10-20	20-30	30-40	30-40	
Cyfanswm	28-30	25-27	22.5-24.5	22.5-24.5	100

Amcanion Asesu: Safon Uwch Dwyradd

UNED	AA1	AA2	AA3	AA4	CYFANSWM
	%	%	%	%	%
1	40	30	15	15	
2	30	30	20	20	
3/4	30-40	20-30	20-25	20-25	
5/6	35-40	25-30	15-20	15-20	
7	30	20	25	25	
8	30	20	25	25	
9-12	10-20	20-30	30-40	30-40	
Cyfanswm	28-30	25-27	22.5-24.5	22.5-24.5	100

4

CYNNWYS Y FANYLEB

Uwch Gyfrannol

Uned 1 – Hybu Gofal o Safon a Chyfathrebu

Rhagarweiniad

Mae'r uned UG hon yn uned orfodol a gaiff ei hasesu'n allanol.

Mae'r uned yn cyflwyno ymgeiswyr i ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd. Egwyddorion, sgiliau a thechnegau gofal sydd eu hangen gan ofalwyr ffurfiol ac anffurfiol i drin unigolion yn dda o fewn amrywiaeth o leoliadau gofal. Mae'r uned hon yn rhoi sail i ddeall a chymhwyso'r unedau eraill.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Ffactorau'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion
- Egwyddorion gofal
- Sgiliau a thechnegau gofal
- Cyfathrebu
- Rhwystrau rhag cyfathrebu a gofal o safon
- Hawliau a chyfrifoldebau darparwyr ac unigolion

Cynnwys

1.1 Ffactorau'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion

Dylai ymgeiswyr wybod y ffactorau canlynol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion o fewn gwahanol leoliadau gofal:

- **Ffactorau corfforol** – ymarfer, deiet, cysur a diogelwch corfforol, hylendid, lleddfu poen
- **Ffactorau deallusol** – ysgogiad, cymryd rhan mewn gweithgareddau
- **Ffactorau emosiynol** – preifatrwydd, urddas, cymeradwyaeth, diogelwch seicolegol, ymreolaeth
- **Ffactorau cymdeithasol** – cyswllt a chefnogaeth gymdeithasol

1.2 Egwyddorion gofal

Mae angen i ymgeiswyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion gofal sy'n dylanwadu ar arferion gweithio gweithwyr gofal wrth ddarparu gofal o safon. Dylai ymgeiswyr wybod sut mae egwyddorion gofal yn amddiffyn unigolion a gweithwyr gofal a deall a chymhwysu'r egwyddorion o fewn gwahanol leoliadau gofal.

- Hybu cyfathrebu effeithiol a pherthnasoedd
- Hybu arferion gwrthwahananiaethol (gan gynnwys polisïau a chodau ymarfer)
- Cynnal cyfrinachedd gwybodaeth
- Hybu a chefnogi hawliau unigolion i urddas, annibyniaeth, ymrymuso, dewis a diogelwch
- Cydnabod credoau personol unigolion ac adnabod a pharchu amrywiaeth
- Amddiffyn unigolion rhag camdriniaeth
- Cynnig gofal i'r unigolyn

1.3 Sgiliau a thechnegau gofal

Dylai ymgeiswyr allu gwybod a deall sut mae gofalwyr ffurfiol ac anffurfiol yn defnyddio sgiliau gofal wrth drin unigolion. Dylent gymhwyso'r wybodaeth hon o fewn gwahanol leoliadau gofal.

- Annog – symbylu a chefnogi unigolion trwy adegau a gweithdrefnau anodd
- Dangos cymeradwyaeth – rhoi clod
- Creu ymddiriedaeth - adeiladu perthnasoedd, cynnal cyfrinachedd a bod yn gyson
- Cael cydymffurfiaeth – rhoi rhesymau a rhoi dewisiadau heb orfodi
- Canfyddiad cymdeithasol – gallu adnabod teimladau ac anghenion unigolyn
- Arsylwi – arsylwi gweledol, sylwi ar newidiadau ymddygiad, cymeriant bwyd ac anhunedd, yn ogystal ag arsylwadau meddygol gan gynnwys mesur tymheredd a phwysau gwaed
- Ymddieithrio - symud i ffwrdd dros dro i alluogi unigolyn i ymdawelu, 'amser allan'
- Gwrthdynciad – cynnig gwrthdynciad dros dro i dynnu unigolyn o'i bryder neu ei boen ei hun, gan ddysgu unigolyn i ddatblygu eu technegau gwrthdynciad eu hunain
- Cyswllt corfforol – cynnig diogelwch seicolegol neu gymeradwyaeth briodol
- Modelu – defnyddio ymddygiad derbynol yn unig fel y gall yr unigolyn ddysgu gweithredu mewn modd tebyg
- Gweithio wrth ochr – cymryd rhan yn yr un gweithgaredd â'r unigolyn
- Gosod heriau – awgrymu targedau cyraeddadwy i unigolyn
- Arferion Gweithio Diogel – codi, arferion hylendid, cynnal eu diogelwch eu hunain

1.4 Cyfathrebu

Dylai fod gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth o wahanol fathau o gyfathrebu a'u pwysigrwydd wrth gyfrannu at ofal o safon i unigolion yn ogystal â gweithio effeithiol eraill o fewn y tîm gofal. Mae angen i ymgeiswyr ddeall a gallu gwerthuso'r ffactorau sy'n rheoli effeithiolrwydd cyfathrebu geiriol a dieiriau.

Gwahanol fathau o gyfathrebu:

- Ysgrifenedig - llythyrau, polisïau, e-byst, cofnodion
- Geiriol – siarad, canu, gwranddo gweithredol
- Dieiriau – iaith y corff, ystumiau, meim a drama, cerddoriaeth, celf a chrefft
- Graffigol – posteri, arwyddion, symbolau a diagramau
- Dulliau eraill o gyfathrebu – iaith Arwyddion Prydeinig, Makaton, Braille, Widget

Ffactorau'n effeithio ar effeithiolrwydd cyfathrebu:

- Ffactorau emosiynol – gwrthdaro personoliaeth, straen a phryder, empathi, gofid a hwyliau
- Ffactorau amgylcheddol – golwg bersonol, agosrwydd, trefniadau eistedd, sŵn cefndir, goleuo, cysur a gwres
- Anableddau corfforol neu ddeallusol
- Dylanwadau diwylliannol
- Stereoteipio a labelu – gwneud tybiaethau am eraill
- Cyfyngiadau a phwysau amser
- Defnyddio terminoleg dechnegol neu ymadroddion llafar
- Defnydd priodol o gyflymder, eglurder a sain uchel
- Defnyddio cyswllt llygad, mynegiant wyneb, iaith y corff
- Darllenadwyedd a chywirdeb – dogfennaeth ysgrifenedig
- Diffyg adnoddau

1.5 Rhwystrau rhag cyfathrebu a gofal o safon

Dylai ymgeiswyr ddeall y rhwystrau gwahanol a allai effeithio ar gyfathrebu ac ar ansawdd y gofal a ddarperir.

Rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol a gofal o safon

Yn ymwneud â gweithwyr gofal

- Agwedd a rhagfarn – gwahaniaethu, stereoteipio, labelu
- Diffyg cymhelliant
- Cydymffurfio â normau gweithle
- Diffyg sgîl
- Eu holl fryd ar eu hanghenion eu hunain
- Cyfyng-gyngor moesegol
- Straen a straen corfforol

Yn ymwneud â'r unigolyn

- Diffyg statws
- Allgáu cymdeithasol
- Nam corfforol
- Cuddio problemau
- Ceisio sylw
- Ymddygiad gelyniaethus
- Teimladau rhwystredig ac ynysig
- Rhwystrau cyfathrebu - nam synhwyrdd, anabledau dysgu, rhwystrau iaith
- Mynediad gwael i wasanaethau ac adnoddau – corfforol, seicolegol, ariannol, diffyg gwybodaeth, daearyddol, diwylliannol a rhwystrau iaith.

Strategaethau i oresgyn rhwystrau:

Yn ymwneud â gweithwyr gofal

- Polisiâu clir ac effeithiol a chodau ymarfer
- Hyfforddiant
- Cyngor a chefnogaeth o fewn y gweithle
- Gwerthuso, gweithdrefnau datblygiad proffesiynol parhaus

Yn ymwneud ag unigolion

- Iaith Arwyddion Prydeinig, Makaton, Braille, Widget
- Offer – cymhorthion clyw, cyfrifiaduron wedi'u haddasu, allbwn llais electronig, system alw tlws crog (*pendant call system*), cymorth larwm cymunedol
- Defnyddio eiriolwyr
- Defnyddio grwpiau cefnogi
- Dehonglydd
- Hwyluso mynediad – e.e. defnyddio rampiau
- Offer ac adnoddau wedi eu haddasu
- Rheoli tymer/hyfforddiant pendantsrwydd

1.6 Hawliau a chyfrifoldebau darparwyr ac unigolion

Dylai fod gan ymgeiswyr wybodaeth o egwyddorion allweddol deddfwriaeth a gynlluniwyd i amddiffyn hawliau unigolion:

- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabled 1995
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf GIG a Gofal Cymunedol 1990
- Deddf Plant 1989
- Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006
- Deddf Gwarchod Data 1994
- Deddf Mynediad i Ffeiliau Personol 1987
- Deddf Mynediad i Gofnod Gofal Iechyd 1990
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1973

Dylai ymgeiswyr ddeall sut mae systemau gwneud iawn yn amddiffyn ac yn Hybu hawliau unigolion ac ymarferwyr

- Polisiâu trefniadol (derbyn, iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal)
- Gweithdrefnau cwyno lleol
- Tribiwnlysoedd Diwydiannol
- Cyrff Rheoleiddio
- Ombwdsmon
- Comisiynau – Cyfle Cyfartal, Cydraddoldeb Hiliol, Hawliau Dynol, Hawliau Anabledd
- Llys Iawnderau Dynol Ewrop

Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu trwy brawf allanol wedi'i seilio ar gynnwys yr uned. Bydd un arholiad (1½ awr).

Bydd gofyn i ymgeiswyr ymateb i gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig a chwestiynau ymateb rhydd wedi eu tynnu o destunau a nodir yn yr adran gynnwys.

Disgwylir i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i astudiaethau achos mewn cyd-destun galwedigaethol trwy lunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau priodol.

Bydd angen i ganolfannau ystyried y ffordd orau o baratoi ymgeiswyr yn effeithiol ar gyfer yr arholiad a chaniatáu amser digonol ar gyfer adolygu a datblygu techneg arholiad.

Uned 2 – Hybu Iechyd da

Rhagarweiniad

Mae'r uned UG hon yn uned orfodol a gaiff ei hasesu'n fewnol.

Bydd yr uned hon yn galluogi ymgeiswyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles yr unigolyn a sut mae cynlluniau diweddar y llywodraeth yn Hybu Iechyd da.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Persbectifau ar iechyd a lles
- Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles
- Mesurau ataliol i osgoi salwch
- Rolau swydd gweithwyr allweddol mewn Hybu Iechyd
- Technegau a ddefnyddir o fewn Hybu Iechyd

Cynnwys

2.1 Persbectifau ar iechyd a lles

Dylai'r ymgeiswyr wybod a deall y gall y canlynol effeithio ar iechyd a lles:

- Modelau a chysyniadau o iechyd, gan gynnwys agweddau cadarnhaol a negyddol
- Mentrau cenedlaethol a lleol a rhaglenni gwella iechyd
- Cyfrifoldeb personol am iechyd

2.2 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a Lles

Dylai fod gan yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth o sut gall ffactorau effeithio ar iechyd a Lles unigolion:

- Dewisiadau ffordd o fyw – deiet, ymarfer, camddefnyddio sylweddau, alcohol ysmegu, mynychder torheulo/defnyddio gwelyau haul
- Cydbwysedd gwaith/bywyd
- Straen
- Materion amgylcheddol – tai, llygredd, economaidd gymdeithasol, gweithle, cymdeithasoli
- Ffactorau ariannol – incwm, gwariant, dyled
- Ffactorau corfforol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol
- Agweddau a rhagfarn/camwahananiaethu
- Rôl y cyfryngau torfol wrth ddylanwadu ar ffyrdd o fyw
- Dylanwad y teulu, rhai dibynnol, cyfeillion, cymheiriaid a chyd-weithwyr

2.3 Mesurau ataliol i osgoi afiechyd

Mae angen i ymgeiswyr adnabod a deall y gellir gostwng afiechyd trwy:

- Cyfrifoldeb personol – y cleient yn y canol a dull cymuned ehangach at ieuchyd da
- Sgrinio – cyn geni, ôl-eni, gwryw/benyw, ataliol, diagnostig
- Imiwneiddio - plentyndod, teithio, achlysurol
- Cefnogaeth arbenigol – statudol, gwasanaethau preifat a gwirfoddol
- Dull hunangymorth – hunangyfeirio, cynnal ieuchyd personol unigolion
- Mae cynlluniau'r Llywodraeth yn rhoi dyletswydd gofal ar Fyrddau Iechyd a'r Awdurdod Lleol – canllawiau cyfredol i hybu ieuchyd da
- Rôl addysg mewn hybu ieuchyd da – addysg statudol, GIG a'r cyfryngau

2.4 Rolau swyddi gweithwyr allweddol mewn hybu ieuchyd

Bydd angen i ymgeiswyr ddeall gwahanol rolau swydd gweithwyr allweddol sy'n ymwneud â Hybu Iechyd a'u cyfrifoldebau wrth hybu ieuchyd da.

- Arbenigwyr Addysg Iechyd
- Ymwelydd Iechyd
- Gweithwyr Gofal Iechyd Cymunedol
- Arbenigwyr Iechyd yr Amgylchedd
- Meddyg Teulu

Gall y canlynol hefyd gyfrannu at hybu ieuchyd da:

- Gweithwyr ieuencid
- Swyddogion cyswllt cymunedol
- Swyddogion heddlu
- Athrawon a darlithwyr
- Sefydliadau gwirfoddol

Bydd angen iddynt wybod prif ddyletswyddau eu rolau, ymhle y maen nhw wedi eu lleoli, sut mae eu caffael a sut maen nhw'n **cyfathrebu** ag unigolion/ defnyddwyr gwasanaeth.

2.5 Technegau a ddefnyddir o fewn hybu ieuchyd

Bydd angen i ymgeiswyr ymchwilio i wahanol dechnegau a dulliau a ddefnyddir mewn ymgyrchoedd Hybu Iechyd:

- Dosbarthiad gweithgareddau hybu
Cynradd – wedi'i anelu at leihau risgiau i'r boblogaeth gyfan
Eilaidd – wedi'i anelu at leihau ffactorau risg i bobl sydd eisoes mewn perygl
Trydyddol – wedi ei anelu at bobl sy'n dioddef o afiechyd, clefyd cymdeithasol neu anabledd
- Termau allweddol – ataliol, ymrymuso (*empowerment*), addysgol, meddygol, cleient-ganolog, ofn
- Dulliau a ddefnyddir i gynnig gwybodaeth i unigolion e.e. teledu, cyfryngau cymysg, poster, taflenni
- Arddull – yn ymwneud â dyluniad defnyddiau
- Ffyrdd a ddefnyddir i fesur canlyniadau / llwyddiant ymgyrchoedd hybu

Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu portffolio sy'n rhoi tystiolaeth o gynllunio, paratoi, gweithredu a gwerthuso ymgyrch fach yn hybu iechyd wedi ei hanelu at grŵp targed penodol.

Cynllunio / Paratoi

Dylai hyn gynnwys:

- Rhagarweiniad
- Sail resymegol
- Cyfiawnhad dros ddewis maes o bryder iechyd a grŵp targed
- Ymchwil – dylid cyfeirio at gynlluniau diweddar y llywodraeth sy'n benodol i'r maes o bryder iechyd a nodir
- Nodau ac amcanion yr ymgyrch arfaethedig
- Dewis a chyfiawnhad o'r dulliau a ddefnyddir, gan gynnwys dulliau cyfathrebu addas i'r grŵp targed
- Strwythur yr ymgyrch
- Enwi adnoddau addas

Yr ymgyrch

Dylai hyn gynnwys:

- Targedau wedi eu gosod i'r unigolion
- Paratoi a chyflwyno defnyddiau
- Cynnal yr ymgyrch a chofnodi canlyniadau
- Casglu a dehongli adborth gan y rhai sy'n cymryd rhan
- Tystiolaeth wedi ei dogfennu (fel sydd / os yw'n gymwys) am yr ymgyrch

Gwerthuso

Dylai hyn gynnwys:

- Llwyddiant wrth gyrraedd nodau ac amcanion
- Priodoldeb cynllunio a gweithredu'r ymgyrch (gan gynnwys defnyddiau a gynhyrchir, adnoddau a ddefnyddir, dulliau a ddewisir) i'r grŵp targed
- Dadansoddi adborth
- Sut gellid mesur y manteision o fewn y grŵp targed yn y tymor byr a hir
- Gwerthuso llwyddiant yr ymgyrch, gan gynnwys hunanwerthuso
- Argymhellion dilys ar gyfer gwella a gwaith estyn.
- Gwerthuso addasrwydd yr ymgyrch hon i'w defnyddio gan weithwyr allweddol perthnasol.

Uned 2 Hybu lechyd da

Tystiolaeth asesu:

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu portffolio sy'n rhoi tystiolaeth am ymchwil, cynllunio, paratoi a gweithredu ymgyrch hybu iechyd ar raddfa fach wedi ei hanelu at grŵp targed penodol.

- AA1:** Gwybodaeth a dealltwriaeth o bersbectifau ar lechyd a Lles ac afiechyd mewn perthynas â'r grŵp targed a ddewiswyd. Gwybodaeth o fentrau cyfredol y Llywodraeth sy'n ymwneud ag iechyd a lles y grŵp targed a ddewiswyd.
- AA2:** Cyflwyno tystiolaeth o gynllunio a gweithredu ymgyrch wedi ei hanelu at y grŵp targed a ddewiswyd.
- AA3:** Ymchwil a dadansoddi perthnasol wrth gynllunio, dylunio, cynnal a monitro'r ymgyrch.
- AA4:** Gwerthuso llwyddiant y gweithgaredd hybu o ran cwrdd ag anghenion y grŵp targed a'r effeithiau posibl tymor bir a thymor hir ar unigolyn. Awgrymu gwelliannau posibl i'r ymgyrch hybu.

Sut caiff ymgeiswyr eu hasesu:

Amcan Asesu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
AA1	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod rhai agweddau ar iechyd ac afiechyd. • Amlinellu rhai o'r ffeithiau a all effeithio ar iechyd gydag ychydig neu ddim cyfeirio at y grŵp targed <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu disgrifiad sylfaenol o wahanol bersbectifau ar iechyd ac afiechyd. • Amlinellu'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar iechyd gan gyfeirio'n benodol at y grŵp targed. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(7 -14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu disgrifiad manwl sy'n dangos dealltwriaeth o wahanol bersbectifau ar iechyd ac afiechyd • Adnabod a disgrifio'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar statws iechyd y grŵp targed a ddewiswyd a disgrifio effeithiau tymor byr a hir y ffactorau hyn ar unigolion. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(15 – 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu disgrifiad cyflawn a chywir sy'n dangos dealltwriaeth o'r gwahanol bersbectifau ar iechyd ac afiechyd • Esbonio'n fanwl y ffactorau sy'n gallu effeithio ar statws iechyd y grŵp targed a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith tymor byr a hir y ffactorau hyn ar unigolion. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(23 -30 marc)</p>

Amcan Asesu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
<p>AA2</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu disgrifiad cyffredinol o'r ymgyrch. • Cyflwyno tystiolaeth gyfyngedig o gynnal ymgyrch. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod amcanion sylfaenol yr ymgyrch • Disgrifio'r fethodoleg a ddewiswyd i gynnal yr ymgyrch. Gall fod peth cyfeirio at unrhyw rai o'r canlynol: y grŵp targed, graddfeydd amser, adnoddau neu faterion iechyd a diogelwch • Darparu tystiolaeth o gynnal yr ymgyrch <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(7 -14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno nodau manwl yr ymgyrch • Disgrifio'n fanwl y fethodoleg a ddewiswyd i gynnal yr ymgyrch gan gyfeirio at y canlynol: grŵp targed, graddfa amser, adnoddau neu faterion iechyd a diogelwch • Darparu tystiolaeth fanwl o gynnal yr ymgyrch gan ganolbwyntio ar y defnyddiau a ddefnyddiwyd ac addasrwydd yr ymgyrch i'r grŵp targed <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno nodau manwl a realistig yr ymgyrch sy'n rhoi sylw i holl feysydd y cynnal • Cyflwyno gwybodaeth fanwl ar y fethodoleg a ddewiswyd i gynnal yr ymgyrch a thrafod yn llawn y grŵp targed, graddfeydd amser, adnoddau a materion iechyd a diogelwch • Darparu tystiolaeth glir a chyflawn o gynnal yr ymgyrch gan ganolbwyntio ar y defnyddiau a ddefnyddiwyd ac addasrwydd yr ymgyrch i'r grŵp targed a'r dull o gyfathrebu a ddefnyddiwyd <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

Amcan Asesu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
<p>AA3</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod grŵp targed. • Disgrifio'n fyr fenter iechyd gyfredol y Llywodraeth. • Disgrifio'n gryno ddull posibl o gynnal yr ymgyrch. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio ac adnabod grŵp targed • Ymchwilio menter iechyd cyfredol y Llywodraeth wedi ei anelu at y grŵp targed a ddewiswyd. • Ymchwilio dull o gyflwyno ar gyfer yr ymgyrch • Disgrifio'n gryno un dull o gael adborth o'r ymgyrch <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 - 10 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno ymchwil berthnasol sy'n cefnogi'r dewis o grŵp targed • Ymchwilio i fentrau iechyd cyfredol y Llywodraeth a thrafod eu haddasrwydd i'r grŵp targed a ddewiswyd. • Ymchwilio a dadansoddi moddau posibl o gynnal ar gyfer yr ymgyrch a chyflwyno tystiolaeth o'u haddasrwydd i'r grŵp targed • Cynhyrchu disgrifiad clir a defnyddiau ar gyfer casglu adborth <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(11 - 15 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi ymchwil gyfredol a pherthnasol ac esbonio sut mae'n cefnogi'r dewis o grŵp targed • Ymchwilio'n fanwl fentrau iechyd cyfredol y Llywodraeth. Asesu eu pwrpas ac effeithiau posibl ar lechyd a Lles y grŵp targed. • Ymchwilio a gwneud dadansoddiad manwl o foddau cynnal ar gyfer yr ymgyrch a thrafod y rhesymau dros ddewis mewn perthynas â'u haddasrwydd i'r grŵp targed • Paratoi'n annibynnol adnoddau ar gyfer casglu adborth <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(16 - 20 marc)</p>

Amcan Asesu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
<p>AA4</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau'r ymgyrch. • Rhoi sylwadau ar lwyddiant yr ymgyrch gyda chyfeiriad byr at y grŵp targed. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau a gwendidau'r ymgyrch • Adnabod manteision yr ymgyrch i'r grŵp targed • Disgrifio'r adborth a gafwyd gan y grŵp targed • Awgrymu gwelliannau i'r ymgyrch • Trafod, ond efallai'n rhoi crynodebau yn hytrach na chasgliadau. • Bydd unrhyw gasgliadau'n syml ac efallai y cynigir hwy heb ddadl yn cefnogi. • Ystyried defnyddio ymgyrch gan weithwyr allweddol perthnasol. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 - 10 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio cryfderau a gwendidau pob cam o'r ymgyrch • Disgrifio effeithiau posibl tymor byr a hir yr ymgyrch ar y grŵp targed • Dadansoddi a rhoi sylwadau ar yr adborth a gafwyd gan y grŵp targed • Disgrifio gwelliannau ymarferol a pherthnasol i'r ymgyrch • Trafod a llunio casgliadau ar sail y dystiolaeth a gafwyd. • Disgrifio sut y gallai'r ymgyrch fod yn addas i'w defnyddio gan weithwyr allweddol perthnasol. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(11 - 15 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafod cryfderau a gwendidau pob cam o'r ymgyrch • Esbonio effeithiau posibl tymor byr a hir yr ymgyrch ar y grŵp targed • Dadansoddi a gwerthuso'r adborth a gafwyd gan y grŵp targed • Cyflwyno awgrymiadau am welliannau i'r ymgyrch sy'n briodol ac yn gyson â'r gwendidau a nodwyd • Llunio casgliadau dilys o'r dystiolaeth sydd ar gael sydd yn glir, wedi eu rhesymu'n dda ac yn fanwl. • Gwerthuso addasrwydd yr ymgyrch i'w defnyddio gan weithwyr allweddol. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(16 - 20 marc)</p>

Unedau Uwch Gyfrannol Opsiynol

Uned 3: Datblygiad y Plentyn: Egwyddorion a Damcaniaethau Twf a Datblygiad (0-8 oed)

Rhagarweiniad

Uned UG opsiynol yw hon a gaiff ei hasesu'n fewnol.

Mae'r uned hon yn cyflwyno ymgeiswyr i egwyddorion twf a datblygiad plant. Bydd hyn yn cynnwys barn ddamcaniaethwyr ar dwf a datblygiad o'r geni hyd at wyth mlwydd oed.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Egwyddorion cyffredinol twf a datblygiad plant 0-8 oed
- Ffactorau'n effeithio ar ddatblygiad
- Pwysigrwydd chwarae
- Amgylcheddau chwarae

Cynnwys

3.1 Egwyddorion cyffredinol twf a datblygiad plant 0-8 oed

Bydd angen i'r ymgeisydd wybod a deall prif egwyddorion datblygiad-
Baban (0 –12 mis)
Blynyddoedd Cynnar (13 mis i 3 oed)
Plentyndod – 8 oed)

3.1.1 Datblygiad Corfforol

- Yr agwedd fiolegol
- Defnydd a phwrpas mesuriadau e.e. siartiau canraddau
- Mesuriadau normadol
- Datblygiad synhwyrdd – gweld, cyffwrdd, blas, arogl a phropriodderbyniaeth
- Cerrig milltir allweddol datblygiad sgiliau echddygol bras a manwl a chydymud

3.1.2 Datblygiad Gwybyddol / Deallusol

- Proses meddwl
- Datrys problemau a chof
- Dychymyg a chreadigrwydd
- Rhesymu
- Canfyddiad
- Canolbwyntio a rhoi sylw
- Y damcaniaethwyr cysylltiedig â datblygiad gwybyddol, i gynnwys, Piaget, Pavlov, Watson, Bandura

3.1.3 Datblygiad iaith

- Elfennau datblygiad iaith e.e. lleferydd derbyngar a mynegiannol, ynganiad, gwrando, iaith fynegiannol, mynegiant wyneb ac ystum, lluniadu a pheintio, darllen ac ysgrifennu, ac iaith arwyddion
- Camau cyfathrebu, cyn-ieithyddol ac ieithyddol
- Anawsterau mewn cyfathrebu, e.e. oedi iaith, namau, rhwystrau iaith
- Y damcaniaethwyr cysylltiedig â datblygiad iaith e.e. Vygostky, Chomsky, Bruner, Skinner a Piaget

3.1.4 Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

- Rhyngweithio cymdeithasol
- Pwysigrwydd ymlyniad
- Canlyniadau gwahanu o ofalwyr cynradd
- Datblygiad teimladau ac ymwybyddiaeth o'r hunan hunangysyniad, hunan-barch, hunanddelwedd a hunanddibyniaeth
- Datblygiad teimladau at bobl eraill
- Datblygiad personoliaeth
- Datblygiad perthnasoedd â phobl eraill
- Y damcaniaethwyr cysylltiedig â datblygiad cymdeithasol ac emosiynol - Freud, Erikson, Piaget, Kohlberg, Bowlby ac Ainsworth

3.2 Ffactorau'n effeithio ar ddatblygiad

Mae angen i ymgeiswyr wybod a deall y gall proses datblygiad plentyn gael ei heffeithio gan:

- Ffactorau biolegol: anhwylderau genetig; anhwylderau a etifeddwyd; anabledau dysgu; anabledau/afiechyd/clefyd
- Ffactorau diwylliannol: ethnigrwydd; addysg; teithio; profiadau diwylliannol; arferion a thraddodiad
- Ffactorau seicolegol / cymdeithasol: hunan-barch, hunangysyniad, perthnasoedd, teulu: ffrindiau; rhyw; dosbarth cymdeithasol; cymdeithasoli; arwahanrwydd; ymlyniad gwan; stereoteipio a gwahaniaethu, addysg
- Ffactorau economaidd / amgylcheddol: incwm - i gynnwys cyflogaeth, diweithdra a thlodi; maeth/deiet; amgylchedd h.y. tai, lleoliad cymdogaeth, cyfleoedd i chwarae/adnoddau; diffyg symbyliad, mentrau llywodraeth a chyllido e.e. gweithgareddau chwaraeon, clybiau brecwast, siopau ffrwythau bwyd

3.3 Pwysigrwydd chwarae

Bydd angen i ymgeiswyr wybod a deall rôl chwarae yn natblygiad plant.

- Camau chwarae h.y. chwarae unigol, cyfochrog, cysylltiadol, cydweithredol a chymdeithasol
- Mathau o chwarae h.y. chwarae creadigol, chwarae dychmygus, chwarae trin â'r dwylo, chwarae cymdeithasol, chwarae corfforol a chwarae synhwyraidd
- Damcaniaethwyr mewn chwarae ac addysg – Froebel, Montessori, Steiner, McMillan ac Isaacs

3.4 Amgylcheddau chwarae

Bydd angen i ymgeiswyr wybod a deall bod gwahanol amgylcheddau'n ffactor bwysig ar allu plant i chwarae a dysgu:

- Y cartref
- Lleoliadau gofal plant
- Lleoliadau addysgol
- Cyfleoedd i blant archwilio, ymchwilio a defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau ac offer.
- Pwysigrwydd lleihau risgiau a hybu diogelwch o fewn pob lleoliad e.e. cartref, ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored, gall hyn gynnwys deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau.

Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu astudiaeth o blentyn sy'n cymharu plentyn a ddewiswyd â normau disgwylidig datblygiad. Bydd angen iddyn nhw allu cyfiawnhau ac egluro unrhyw amrywiadau o'r norm, yn ymwneud â gwaith damcaniaethwyr a'r ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad plant.

Dylai'r astudiaeth gynnwys:

- Rhagarweiniad a nodau astudiaeth, gan gynnwys cefndir, amgylchedd, grwpiau teulu, addysg, hobiau'r plentyn a chydabod a chynnal cyfrinachedd yr unigolyn
- Normau sefydledig datblygiad: corfforol, deallusol, gwybyddol, iaith, emosiynol a chymdeithasol yn ymwneud ag oed y plentyn
- Mathau o chwarae sy'n hybu datblygiad y plentyn
- Trwy arsylwi darparu esboniad o :
 - twf a datblygiad y plentyn o'i gymharu â'r normau sefydledig; gan gynnwys corfforol, deallusol, gwybyddol, iaith, emosiynol a cherrig milltir cymdeithasol
 - y ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad y plentyn; biolegol, gymdeithasol economaidd, amgylcheddol, gan gynnwys rôl chwarae a'i heffeithiau ar ddatblygiad
 - goblygiadau unrhyw fentrau cyfredol gan y llywodraeth e.e. cyflwyno clwb brechwast yn yr ysgol
- Dadansoddiad cymharol o ddatblygiad y plentyn mewn perthynas â damcaniaethwyr.
- Gwerthusiad i gynnwys llwyddiant wrth gwrdd â nodau'r astudiaeth; priodoldeb y gweithdrefnau a ddefnyddir i gasglu data; materion moesegol sy'n ymwneud â'r astudiaeth; awgrymiadau ar gyfer gwelliant neu ddatblygiad pellach.

Uned 3: Datblygiad y Plentyn: Egwyddorion a Damcaniaethau Twf a Datblygiad (0-8 oed)

Tystiolaeth asesu:

Mae angen i ymgeiswyr gynhyrchu astudiaeth plentyn sy'n cymharu patrwm datblygiadol a chyfradd twf plentyn â normau datblygiad, a rhoi cyfiawnhad cadarn ac esboniad am unrhyw amrywiadau y sylwir arnyn nhw.

- AA1:** Dealltwriaeth o'r cerrig milltir allweddol perthynol i oed y plentyn a ddewiswyd ac o'r ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad plentyn.
- AA2:** Cymharu'r plentyn â normau disgwylidig datblygiad gan ddefnyddio arsylwi a gwaith damcaniaethwyr .
- AA3:** Ymchwil perthnasol gan ddefnyddio amrywiol ddulliau i bennu cam datblygiad y plentyn.
- AA4:** Dadansoddiad a gwerthusiad o'r astudiaeth, y gweithdrefnau a ddefnyddir a'r canlyniadau a gafwyd.

Sut caiff ymgeiswyr eu hasesu:

Amcan Asesu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
AA1	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparu disgrifiad syml o'r plentyn. Cyfeirio at un o normau disgwylidig datblygiad Enwi un ffactor a allai effeithio ar ddatblygiad plentyn Nodi sut gall chwarae helpu i hybu datblygiad. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi disgrifiad elfennol o'r plentyn a'r normau disgwylidig Cynhyrchu esboniad ffeithiol syml o ddau ffactor o leiaf a allai effeithio ar ddatblygiad plentyn Cyfeirio at waith o leiaf un damcaniaethwr Disgrifio rôl chwarae wrth hybu datblygiad gan ddefnyddio termau syml. Sôn am fentrau lleol/llywodraeth i hybu datblygiad <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(7 -14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhyrchu disgrifiad clir o'r plentyn ac yn rhoi sylw i'w cam datblygu gan ddangos dealltwriaeth o dargedau a cherrig milltir Dangos gwybodaeth o bedwar ffactor o leiaf a allai effeithio ar ddatblygiad Cyfeirio at fanteision chwarae i hybu datblygiad ac at gyfleoedd a gynigir gan fentrau lleol neu rai'r llywodraeth Cynhyrchu disgrifiad o waith o leiaf dri damcaniaethwr <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhyrchu manylion clir a chryno am y plentyn ac yn trafod holl feysydd datblygiad. Dangos dealltwriaeth o'r cerrig milltir Rhoi adroddiad cyflawn am y ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad plentyn Dangos gwybodaeth am wahanol fathau o chwarae sy'n hybu datblygiad. Cyfeirio at gynlluniau lleol/y llywodraeth sy'n ymwneud â datblygiad y plentyn Esbonio gwaith mwy na thri damcaniaethwr <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(23 -30 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
<p>AA2</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymharu'r plentyn ag un o'r normau datblygiad • Gwneud ymgais i gysylltu gwaith damcaniaethwr â'r camau datblygiad a welir. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys cymhariaeth syml o'r plentyn yn ôl y normau. • Gwneud ymdrech i gymhwysu gwaith o leiaf un damcaniaethwr i'r camau datblygiad a welwyd yn y plentyn. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 - 10 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys disgrifiad manwl o'r plentyn yn ôl y normau am bob maes datblygu • Disgrifio'r amrywiadau o'r norm • Cyfeirio'n glir at y ffactorau sy'n effeithio ar gam datblygu'r plentyn. • Cymhwysu gwaith o leiaf ddau ddamcaniaethwr i'r camau datblygiad a welwyd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(11 - 15 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchu cymhariaeth fanwl o'r plentyn yn ôl y normau am bob maes datblygiad • Rhoi enghreifftiau o gerrig milltir penodol a gyraeddodd y plentyn a chyfiawnhau unrhyw amrywiadau o'r norm • Esbonio ffactorau cadarnhaol a negyddol sy'n effeithio ar ddatblygiad y plentyn • Llunio cysylltiadau cadarn rhwng ymddygiad a welwyd / datblygiad a gwaith o leiaf dri damcaniaethwr. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(16 - 20 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
<p>AA3</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymharu a chofnodi peth tystiolaeth trwy sesiynau arsylwi. • Rhoi sylwadau ar y dystiolaeth a gasglwyd. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Casglu eu tystiolaeth trwy holiaduron syml, cyfweiliadau a sesiynau arsylwi heb eu strwythuro • Defnyddio un neu ddwy ffynhonnell yn unig i gael tystiolaeth • Defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd i lunio barn <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 - 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau i gynhyrchu disgrifiad ffeithiol, manwl o'r plentyn i gynnwys cerrig milltir /targedau a awgrymwyd • Cynhyrchu tystiolaeth fod yr ymchwil yn briodol ac yn foesebol • Dadansoddi, myfyrio ar eu hymchwil a llunio barn <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(12 - 18 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ymchwil gynradd ac eilaidd i gynhyrchu disgrifiad ffeithiol, manwl o'r plentyn gan gyfeirio at y normau disgwylidig • Darparu tystiolaeth o ymchwil a strwythurwyd yn dda, gan roi manylion sut y cafodd materion moesegol sydd ynghlwm wrth gasglu data o ffynonellau cynradd eu datrys • Dadansoddi ymchwil gynradd ac eilaidd er mwyn llunio barn wybodus <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(19 - 25 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
<p>AA4</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau'r ymgyrch. • Awgrymu dull o wella'r astudiaeth. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi cryfderau a gwendidau cynllunio a chynnal yr astudiaeth • Cynnig awgrymiadau am wella gyda dim neu ychydig gyfiawnhad <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 - 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchu sylwadau realistig ar bob cam sy'n rhan o gwblhau'r astudiaeth, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau • Cynnig awgrymiadau realistig am wella a datblygu ymhellach gan esbonio sut y gellir gwneud hyn <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(12 - 18 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu dadansoddiad manwl o bob cam o'r astudiaeth • Defnyddio barn wedi'i hymresymu i gynhyrchu argymhellion manwl ar gyfer gwella a datblygu ymhellach. Dylai'r rhain fod yn ddilys ac yn gyraeddadwy <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(19 - 25 marc)</p>

Uned 4: Gweithgareddau Creadigol mewn Amrywiaeth o Leoliadau Gofal

Rhagarweiniad

Mae'r uned UG hon yn uned opsiynol a chaiff ei hasesu'n fewnol.

Yn yr uned hon, bydd ymgeiswyr yn archwilio'r gwahanol fathau o weithgareddau creadigol a ddefnyddir gan weithwyr gofal proffesiynol mewn amrywiaeth o leoliadau gofal er lles unigolion ar wahanol gamau bywyd.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Gweithgareddau creadigol
- Lleoliadau Gofal
- Unigolion ag anghenion gofal penodol
- Rolau swydd gweithwyr gofal sy'n defnyddio gweithgareddau creadigol
- Cymhwyso egwyddorion gofal mewn gweithgareddau creadigol
- Cynllunio gweithgareddau creadigol

Cynnwys

4.1 Gweithgareddau creadigol

Dylai ymgeiswyr adnabod y gwahanol fathau o weithgareddau creadigol a all ffurfio rhan o raglen gofal unigolyn gan gynnwys:

- Gweithgareddau grŵp - dawnsio, chwarae gemau
- Gweithgareddau unigol - darllen llyfr, arlunio
- Gweithgareddau dan do - gweithgareddau crefft
- Gweithgareddau cymdeithasol - canu, drama, paratoi pryd o fwyd
- Gweithgareddau deallusol - peintio, tasgau atgofio
- Gweithgareddau corfforol - nofio, sesiynau ymarfer
- Gweithgareddau emosiynol - peintio, chwarae â dŵr a thywod

Dylai ymgeiswyr ddeall y gall pwrpas gweithgareddau creadigol fod yn:

- Therapiwtig- er mwyn gwella neu drin cyflwr
- Adloniannol - rhoi symbyliad, atal diflastod

Mae angen i ymgeiswyr ddysgu y gall gweithgareddau creadigol fod yn llesol i unigolion mewn sawl ffordd.

- Lles corfforol - gwella sgiliau trafod, gwelliant cardiofasgwlaidd
- Lles deallusol - gwella canolbwyntio, datblygu iaith
- Lles cymdeithasol - cydweithio ag eraill, datblygu perthnasoedd
- Lles emosiynol - ymlacio, diogelwch, pleser

4.2 Lleoliadau gofal

Caiff gweithgareddau creadigol eu defnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau gofal i sicrhau dull gofal ar gyfer y person cyfan. Caiff gweithgareddau creadigol eu defnyddio mewn gwahanol leoliadau.

- Gofal dydd - i blant yn ogystal ag unigolion hŷn a rhai ag anableddau
- Gofal preswyl - hosbisau, cartrefi gofal
- Ysbytai
- Lleoliadau addysgol
- Canolfannau adnoddau

4.3 Unigolion ag anghenion gofal penodol

Dylai ymgeiswyr adnabod a deall y ffyrdd y caiff gwahanol weithgareddau creadigol eu defnyddio gydag unigolion sydd ag anghenion gofal penodol:

- Anableddau corfforol
- Unigolion ag anghenion adferiad
- Anableddau dysgu
- Problemau ymddygiad
- Namau synhwyraidd
- Problemau'n effeithio ar iechyd meddwl

Dylai ymgeiswyr ddeall pwysigrwydd cyfateb gweithgareddau i unigolion, gan gynnwys anghenion unigol, eu hoffterau a'u gallu. Mae angen i ymgeiswyr hefyd ddeall bod dewis gweithgaredd amhriodol yn gallu arwain at rwystrau rhag i unigolion gymryd rhan

4.4 Rolau swydd gweithwyr gofal sy'n defnyddio gweithgareddau creadigol.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol, o fewn lleoliadau gofal, y byddai gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd yn ogystal â phobl eraill sy'n gallu creu a chynorthwyo yn natblygiad gweithgareddau creadigol. Gall y rhain fod:

- Yn rhai y mae prif ran eu gwaith yn ymwneud â chynllunio a gweithredu gweithgareddau creadigol
- Yn rhai sy'n defnyddio gweithgareddau creadigol fel rhan ychwanegol o'u gwaith

Gweithwyr o fewn lleoliadau gofal:

- Lleoliadau gofal preswyl - cydlynnydd gweithgareddau creadigol
- Lleoliadau gofal dydd - artistiaid yn ymweld, athrawon, cynorthwywyr gofal
- Lleoliadau addysgol – seicolegydd addysg, athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu
- Unedau arbennig - therapyddion lleferydd
- Ysbytai - therapyddion galwedigaethol

Mae angen i ymgeiswyr gael dealltwriaeth gadarn o ofynion y rolau swydd posibl wrth weithio gyda therapïau creadigol:

- Cymwysterau a hyfforddiant angenrheidiol
- Sgiliau a rhinweddau
- Cyfrifoldebau
- Gweithio fel tîm/unigolyn
- Gweithgareddau gwaith dydd i ddydd
- Patrymau gwaith i'r rhai sy'n darparu gweithgareddau creadigol fel prif rôl eu gwaith

4.5 Cymhwyso egwyddorion gofal mewn gweithgareddau creadigol

Dylai ymgeiswyr ddeall y ffyrdd y caiff gweithgareddau creadigol eu defnyddio wrth gynllunio a gweithredu gweithgareddau creadigol.

- Cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Cefnogi hawliau unigolion i gyfrinachedd
- Cefnogi hawliau unigolion i urddas, annibyniaeth a dewis
- Bod yn sensitif i gredoau personol a hunaniaeth unigolion
- Cefnogi unigolion trwy ddefnyddio sgiliau cyfathrebu'n effeithiol

4.6 Cynllunio gweithgareddau creadigol

Dylai ymgeiswyr adnabod yr angen am gael unigolion i gymryd rhan yng ngham cynllunio'r broses. Mae hi'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y gwahanol ffyrdd o annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol.

I gynllunio ac i gynnal unrhyw weithgareddau creadigol, dylai fod gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- Dethol a chytuno ar weithgareddau creadigol priodol
- Cynllunio a threfnu adnoddau
- Gosod nodau a thargedau perthnasol
- Gofynion iechyd a diogelwch
- Defnyddio sgiliau a thechnegau gofal yn ogystal â sgiliau cyfathrebu effeithiol
- Rhwystrau posibl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol
- Ffynonellau adborth priodol
- Argymhellion ar gyfer gwella

Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad yn cynnwys ymchwil a chyflwyno gweithgaredd creadigol o fewn lleoliad gofal a ddewisir.

Dylai'r adroddiad gynnwys:

1. Gwybodaeth am y gwahanol fathau o weithgareddau creadigol sydd ar gael gyda manteision corfforol, cymdeithasol a seicolegol posibl y gweithgareddau ar unigolion.
2. Esboniadau o rolau swydd a chyfrifoldebau dau weithiwr gofal sy'n trefnu gweithgareddau creadigol i unigolion. Mae'r esboniad yn cynnwys cymhariaeth o gyfrifoldebau, sgiliau a chymwysterau'r gweithwyr gofal a ddewiswyd.
3. Trosolwg cyffredinol o'r lleoliad gofal a ddewiswyd.
4. Disgrifiad o'r unigolyn/grŵp o unigolion a ddewiswyd, eu nodweddion a'u hanghenion
5. Disgrifiadau o'r gwahanol fathau o weithgareddau creadigol a allai fod o les i'r unigolyn/unigolion a ddewiswyd, gyda dadansoddiad o'r prif fanteision i'r unigolyn/unigolion a ddewiswyd o gymryd rhan yn y gweithgareddau a awgrymwyd.
6. Rhwystrau posibl sy'n atal yr unigolyn(ion) rhag cymryd rhan yn y gweithgareddau a awgrymwyd gydag argymhellion ar sut i oresgyn y rhwystrau hyn.
7. Cofnodion o sut caiff y gweithgaredd creadigol ei gynllunio a'i weithredu ar gyfer yr unigolyn(ion) a ddewiswyd. I gynnwys tystiolaeth o:
 - Gyfweiliadau gyda'r unigolyn/gofalwr
 - Paratoi gweithgaredd - yr adnoddau angenrheidiol, costio, amseru, lleoliad
 - Esboniadau am beth mae'r gweithgaredd yn ei gynnwys a sut y caiff ei lwyddiant ei fesur o fewn ffynonellau'r adborth a nodwyd.
 - Ystyriaethau iechyd a diogelwch
 - Cymhwyso egwyddorion gofal
 - Gweithredu'r gweithgaredd
8. Gwerthusiad o lwyddiant ac effeithiolrwydd y gweithgaredd creadigol wrth gwrrd ag anghenion unigolyn/unigolion a ddewiswyd trwy:
 - Adnabod manteision y gweithgaredd creadigol ac amlinellu effeithiau posibl tymor byr a thymor hir cymryd rhan yn y gweithgaredd
 - Archwilio cynllunio, trefnu a gweithredu'r gweithgaredd
 - Barn yr unigolyn(ion) a ffynonellau adborth eraill
 - Argymhellion am ddatblygiad posibl y gweithgaredd

Uned 4:Gweithgareddau Creadigol mewn Amrywiaeth o Leoliadau Gofal	
Tystiolaeth asesu: Cynhyrchu adroddiad yn cynnwys ymchwil a chyflwyno gweithgaredd creadigol o fewn lleoliad gofal a ddewisir. Mae'r adroddiad yn cynnwys:	
AA1	Gwybodaeth am y gwahanol fathau o weithgareddau creadigol gyda manteision corfforol, cymdeithasol a seicolegol posibl y gweithgareddau ar unigolion. Ystyried rolau swydd dau weithiwr gofal wrth greu neu gefnogi gweithgareddau creadigol a chymharu cyfrifoldebau, sgiliau a chymwysterau'r gweithwyr gofal a ddewiswyd
AA2	Manylion a gwybodaeth am yr unigolyn(ion) a ddewiswyd a'r lleoliad gofal a ddewiswyd. Asesu anghenion a gofynion yr unigolyn ac ystyried gweithgareddau creadigol posibl a allai fod o les i'r unigolyn a ddewiswyd. Ystyried y rhwystrau posibl y gallai'r unigolyn(ion) eu hwynebu wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau creadigol gydag argymhellion realistig i oresgyn y rhwystrau hyn.
AA3	Ymchwil a dadansoddi perthnasol wrth gynllunio, dylunio, cynnal a monitro gweithgaredd creadigol gyda'r unigolyn(ion) a ddewiswyd.
AA4	Gwerthusiad o lwyddiant ac effeithiolrwydd y gweithgaredd creadigol wrth gwrdd ag anghenion unigolyn/unigolion. Llunio barn resymegol am effeithiau posibl tymor byr a thymor hir y gweithgaredd ar yr unigolyn. Awgrymu gwelliannau posibl i'r gweithgaredd creadigol.

Amcan Aseu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
<p>AA1</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi un pwrpas gweithgareddau creadigol. • Nodi dau weithgaredd creadigol corfforol a nodi sut gallan nhw fod o les i unigolion. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiadau sylfaenol o bwrpas gweithgareddau creadigol. • Disgrifio sawl gweithgaredd creadigol a nodi sut maen nhw o les i unigolion, gan ganolbwyntio'n bennaf ar fanteision corfforol. • Amlinellu dwy rôl swydd ac adnabod o fewn y rolau ddarpariaeth gweithgareddau creadigol/therapiwtig <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(7 -14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad manwl o bwrpas gweithgareddau creadigol a ddefnyddir ar gyfer dibenion therapiwtig a hamdden. • Disgrifio amrywiaeth o weithgareddau creadigol a disgrifio sut maen nhw o les i unigolion mewn mwy nag un maes datblygu. • Disgrifio'n fanwl ddwy rôl swydd a dangos dealltwriaeth glir o'u rôl wrth ddarparu gweithgareddau creadigol i unigolion. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad cywir o bwrpas gweithgareddau creadigol a ddefnyddir ar gyfer dibenion therapiwtig a hamdden. • Disgrifio amrywiaeth eang o weithgareddau creadigol ac esbonio sut maen nhw o les i unigolion ym mhob maes datblygiad. • Cynnwys disgrifiad cyflawn a chywir o ddwy rôl swydd o leiaf a dangos dealltwriaeth fanwl a chywir o sut mae darparu gweithgareddau creadigol yn rhan o brif rôl y swydd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel cyrhaeddiad 1	Lefel cyrhaeddiad 2	Lefel cyrhaeddiad 3	Lefel cyrhaeddiad 4
<p>AA2</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi amlinelliad o'r lleoliad gofal. • Adnabod un gweithgaredd addas a nodi sut y gall gwrdd â anghenion yr unigolyn a ddewiswyd. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad cryno o'r lleoliad gofal. • Adnabod a disgrifio'r ffyrdd y gall o leiaf un gweithgaredd addas gwrdd â anghenion yr unigolyn a ddewiswyd. Gall tystiolaeth ganolbwyntio'n bennaf ar un maes datblygu. • Adnabod un rhwystr neu ddim rhwystr rhag cymryd rhan <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 - 10 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad clir o'r lleoliad gofal. • Adnabod a disgrifio'r ffyrdd y bydd o leiaf dri gweithgaredd creadigol addas o les ac yn bodloni anghenion yr unigolyn a ddewiswyd. Bydd tystiolaeth yn canolbwyntio ar fwy nag un maes datblygu. • Disgrifio'n fanwl ddau rwystr perthnasol rhag cymryd rhan gan awgrymu ffyrdd o'u goresgyn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(11 - 15 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad o'r lleoliad gofal a'i bwrpas wrth gwrdd â anghenion unigolion. • Esbonio'n fanwl y ffyrdd y gall o leiaf bedwar gweithgaredd creadigol fod o les a chwrrd ag anghenion corfforol, cymdeithasol a/neu seicolegol yr unigolyn a ddewiswyd. • Disgrifio'n fanwl rwystrau perthnasol rhag cymryd rhan gyda gweithgareddau realistig i'w goresgyn nhw. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(16 - 20 marc)</p>

Amcan Asesu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA3</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod gweithgaredd • Nodi un nod y gweithgaredd. • Cyflwyno tystiolaeth gyfyngedig o baratoi a chynnal y gweithgaredd. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud ymchwil a fydd yn cynnwys cyfweiliad sylfaenol i ddewis gweithgaredd. • Nodi amcanion y gweithgaredd. • Cyflwyno tystiolaeth sylfaenol o baratoi'r gweithgaredd • Adnabod materion iechyd a diogelwch ac egwyddorion gofal sydd efallai, neu nad ydynt efallai'n gysylltiedig â'r gweithgaredd a ddewiswyd. • Disgrifio'n gryno o leiaf un dull o gael adborth. • Dangos sgiliau sylfaenol wrth weithredu a dadansoddi'r gweithgaredd. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 -11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud ymchwil gan ddefnyddio holiaduron /cyfweiliadau i ddewis gweithgaredd priodol. • Disgrifio'n glir nodau'r gweithgaredd i fod o fudd i les yr unigolyn • Cyflwyno tystiolaeth o gofnodion dealladwy o gynllunio ar gyfer gweithredu'r gweithgaredd. • Gwneud cysylltiadau clir â materion iechyd a diogelwch ac egwyddorion gofal wrth gynllunio a gweithredu'r gweithgaredd. • Rhoi tystiolaeth o weithredu'r gweithgaredd • Cynnwys disgrifiadau clir a deunyddiau ar gyfer casglu adborth o ddwy ffynhonnell o leiaf. • Dadansoddi'r adborth a gafwyd <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(12 - 18 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal ymchwil gan ddangos blaengaredd yn y dulliau o gael tystiolaeth a gwybodaeth i ddewis gweithgaredd priodol. • Cynhyrchu cofnodion o gynlluniau a deunyddiau ar gyfer gweithgaredd priodol sy'n dangos dawn a dychymyg ac sy'n debygol o gyrraedd amcanion a nodir yn benodol i gwrdd â anghenion unigolion. • Gwneud dadansoddiad manwl o faterion iechyd a diogelwch ac egwyddorion gofal wrth gynllunio a gweithredu'r gweithgaredd. • Rhoi tystiolaeth o weithredu'r gweithgaredd • Yn annibynnol paratoi adnoddau ar gyfer casglu adborth o fwy na dwy ffynhonnell. • Rhoi dadansoddiad manwl o'r adborth a gafwyd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(19 - 25 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA4</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau cynllunio a chynnal y gweithgaredd • Gwneud awgrym ar gyfer gwella. <p>Bydd tystiolaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth. Dim defnydd o eirfa arbenigol. Bydd y gwaith yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod manteision y gweithgaredd • Adnabod cryfderau a gwendidau cynllunio, trefnu a gweithredu'r gweithgaredd • Rhoi sylwadau ar eu sgiliau eu hunain • Disgrifio'r adborth a gafwyd. • Rhoi disgrifiad byr o addasrwydd y gweithgaredd • Rhoi o leiaf un awgrym i wella'r gweithgaredd <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 -11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio manteision posibl tymor byr a thymor hir i'r unigolyn sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd. • Disgrifio cryfderau a gwendidau cynllunio, trefnu a gweithredu'r gweithgaredd • Gwerthuso eu sgiliau eu hunain wrth weithredu'r gweithgaredd • Gwerthuso'r adborth a gafwyd • Rhoi cyfiawnhad cadarn am briodoldeb y gweithgaredd, • Rhoi awgrymiadau perthnasol ar gyfer gwella. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Cymharol fach yw nifer y gwallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(12 - 18 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esbonio manteision posibl tymor byr a thymor hir i'r unigolyn sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd. • Trafod cryfderau a gwendidau cynllunio, trefnu a gweithredu'r gweithgaredd. • Gwerthuso eu sgiliau eu hunain wrth weithredu'r gweithgaredd. • Gwerthuso barn yr unigolion ac eraill o'r adborth a gafwyd. • Cyfiawnhau penderfyniadau gweithgaredd yn llawn • Rhoi awgrymiadau o ran gwella neu ddatblygu'r gweithgaredd sy'n briodol ac yn gyson â gwendidau gweithredu'r gweithgaredd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(19 - 25 marc)</p>

Uned 5: Deall Unigolion gydag Anableddau

Rhagarweiniad

Mae'r uned UG hon yn uned opsiynol a chaiff ei hasesu'n allanol.

Nod yr uned yw galluogi ymgeiswyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiol gyflyrau anabledd a namau. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau arbenigol sydd ar gael i gwrdd ag anghenion unigolion ag anableddau.

Mae'r uned hon yn cynnwys: -

- Ystyr anabledd
- Achosion ac effeithiau anableddau / namau
- Cyflyrau anabledd
- Deddfwriaeth
- Proses rheoli gofal
- Darparu gwasanaeth
- Rhwystrau
- Cymhorthion ac addasiadau sydd ar gael i gefnogi unigolion ag anableddau

Cynnwys

5.1 Beth yw anabledd?

Mae angen i ymgeiswyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o: -

- Y ffyrdd o ddiffinio "anabledd" gan ddefnyddio modelau meddygol a chymdeithasol anabledd
- Gwahanol fathau o anabledd - corfforol, synhwyraidd ac anabledd dysgu

5.2 Achosion ac effeithiau anabledd / nam

Mae angen i ymgeiswyr ddeall prif achosion anableddau corfforol, nam synhwyraidd ac anableddau dysgu a'r effeithiau y gallant eu cael ar weithrediad y corff a gallu unigolion.

Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Annormaleddau cromosomaidd - e.e. cromosom ychwanegol yn achosi Syndrom Down
- Ffactorau genetig - genynnau diffygiol
- Trawma geni - amddifadu o ocsigen wedi'i achosi gan hypocsia neu anaf corfforol
- Ffactorau maetheg - diffyg maeth
- Ffactorau dull o fyw - niwed wedi'i achosi gan ysmegu, alcohol, camddefnyddio sylweddau, gordewdra
- Damweiniol - niwed i'r system nerfol ganolog trwy niwed i'r pen, gwddf neu asgwrn cefn
- Clefyd heintus - gan achosi niwed i organau allweddol e.e. llid yr ymennydd
- clefyd llym / cronig - cyflyrau estynedig sy'n peri episodau llym neu ddirywiad graddol
- Ffactorau amgylcheddol - llygredd, clefydau cysylltiedig â diwydiant
- Ffactorau cysylltiedig ag oed - dirywiad cynyddol systemau allweddol

5.3 Cyflyrau anabledd

Mae angen i ymgeiswyr allu disgrifio achosion, arwyddion a symptomau, dulliau profi/canfod y cyflyrau canlynol:-

- Dementia, gan gynnwys clefyd Alzheimer
- Parlys yr ymennydd
- Ffibrosis y cystig
- Syndrom Down
- Nychdod Cyhyrol (Duchenne)
- Sglerosis Ymledol
- Osteoarthritis
- Spina Bifida

Bydd angen i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyflyrau uchod i unigolion mewn gwahanol sefyllfaoedd.

5.4 Deddfwriaeth

Bydd angen i ymgeiswyr ddeall nodau cyffredinol, prif ddarpariaeth a chyfyngiadau'r ddeddfwriaeth ganlynol: -

- Deddf GIG a Gofal Cymunedol (1990)
- Deddfau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995;2005)
- Deddf Cydnabod Gofalwyr (1996)
- Deddf Addysg 1996 (darpariaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig)
- Deddf Plant 1989

Dylai ymgeiswyr ddeall sut mae'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau gofal i unigolion ag anableddau a gwaith swyddogion gofal proffesiynol yn y gwasanaethau hyn. Mae angen iddynt hefyd ystyried agweddau cymdeithas tuag at unigolion ag anableddau a deall sut gall deddfwriaeth gyfredol amddiffyn unigolion ag anableddau rhag gwahaniaethu.

5.5 Proses rheoli gofal

Mae angen i ymgeiswyr ddeall pwysigrwydd rheoli gofal wrth ddarparu cefnogaeth effeithiol i unigolion ag anableddau a gwybod sut mae'r broses rheoli gofal yn gweithio. Dylai ymgeiswyr ddysgu: -

- Sut caiff anghenion unigolion ag anableddau eu hasesu, gan gynnwys y meini prawf cymhwyster a ddefnyddir
- Y camau yn y broses cynllunio gofal - asesu, cynllunio a gweithredu cynllun gofal, monitro a gwerthuso'r cynllun, adolygu'r cynllun
- Y dulliau a ddefnyddir i weithredu monitro a gwerthuso'r cynllun gofal.
- Gwaith ymarferwyr sydd â rhan mewn rheoli gofal a'u rolau allweddol mewn tîm amlddisgyblaethol
- Sut caiff gwasanaethau priodol eu contractio i gwrdd â anghenion unigolion ag anableddau
- Manteision ac anfanteision posibl dull amlddisgyblaethol o roi gofal mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth a swyddogion gofal proffesiynol
- Pwysigrwydd y cyfraniad a wneir gan ofalwyr anffurfiol i gefnogi'r cynllun gofal a sut gellir eu cefnogi

5.6 Darparu gwasanaeth

Dylai ymgeiswyr allu cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion sydd â gwahanol fathau o anabledd ac o amgylchiadau personol. Dylen nhw ystyried manteision, cyfyngiadau ac effeithiolrwydd y gwasanaethau canlynol: -

- Gwasanaethau gofal cartref
- Gwasanaethau gofal dydd
- Gofal seibiant
- Gofal cartref preswyl a nyrsio
- Ysgolion, unedau a chylchoedd meithrin arbenigol
- Gwasanaethau gofal sylfaenol (*primary care services*)
- Sefydliadau gwirfoddol e.e. RNIB; Cymdeithas Alzheimer
- Manteision lles i unigolion ag anabledd gan ddefnyddio Lwfans Byw yr Anabl, Lwfans Gweini, Motability
- Cronfeydd byw'n annibynnol
- Gwasanaethau e.e. Mynediad i waith, 'Y Fargen Newydd' i unigolion ag anabledd

5.7 Rhwystrau

Mae angen i ymgeiswyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhwystrau posibl sy'n wynebu unigolion ag anableddau wrth gael mynediad i wasanaethau a sut gallen nhw gael effaith ar ansawdd bywyd unigolyn. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Rhwystrau yn ymwneud â symudedd
- Rhwystrau'n ymwneud â mynediad i adeiladau cyhoeddus, y gweithle, cludiant, cyfleusterau hamdden / cymdeithasol, yn y cartref
- Rhwystrau economaidd a sut gallen nhw gyfyngu mynediad i wasanaethau / cyfleusterau.
- Rhwystrau cyfathrebu
- Rhwystrau sy'n deillio o ragfarn a gwahaniaethu e.e. gwahaniaethu annheg, darpariaeth addysgol gyfyngedig, cynhwysiad cymdeithasol cyfyngedig.
- Mae angen i ymgeiswyr hefyd ystyried sut gellir goresgyn y rhwystrau hyn i well cyfleoedd i unigolion ag anableddau

5.8 Cymhorthion ac addasiadau sydd ar gael i gefnogi unigolion ag anableddau

Mae angen i ymgeiswyr allu adnabod y gwahanol gymhorthion ac addasiadau ac asesu eu defnyddioldeb wrth gwrdd ag anghenion unigolion â gwahanol anableddau. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Cymhorthion / addasiadau i gynorthwyo symudedd
- Cymhorthion cerdded
- Addasiadau i gefnogi gweithgareddau byw bob dydd
- Cymhorthion cyfathrebu
- Cymhorthion i wella addysg / hyfforddiant

Asesu

Asesir yr uned hon trwy brawf allanol a seilir ar gynnwys yr uned. Bydd un arholiad (1½ awr).

Bydd angen i ymgeiswyr ymateb i gwestiynau atebion byr, cwestiynau strwythuredig a chwestiynau ymateb rhydd wedi eu tynnu o destunau a nodir yn yr adran gynnwys.

Disgwylir i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i astudiaethau achos mewn cyd-destun galwedigaethol trwy lunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau priodol.

Bydd angen ystyried y ffordd orau o baratoi ymgeiswyr yn effeithiol ar gyfer yr arholiad a chaniatáu amser digonol ar gyfer adolygu a datblygu techneg arholiad.

Uned 6: Deall Afiechydon, Clefydau ac Anhwylderau Cyffredin

Rhagarweiniad

Mae'r uned UG hon yn uned opsiynol a gaiff ei hasesu'n allanol.

Bydd ymgeiswyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o achosion, arwyddion a symptomau amrywiaeth o afiechydon, clefydau ac anhwylderau cyffredin a allai effeithio ar unigolion.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Deall y cysyniadau a'r termau sylfaenol
- Categoriâu o afiechyd, clefyd ac anhwylder
- Clefydau heintus
- Rheoli clefydau heintus
- Clefydau ac anhwylderau anheintus
- Strategaethau lleihau risg

Cynnwys

6.1 Deall y cysyniadau a'r termau sylfaenol

Bydd angen i ymgeiswyr:

- Deall y cysyniad o 'iechyd' yn ôl diffiniad Mudiad Iechyd y Byd:
- Deall model biofeddygol iechyd ac afiechyd (*illness*)
- Bod yn gyfarwydd â'r termau cyffredin sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio 'afiechyd' (*ill-health*), megis: afiechyd, clefyd ac anhwylder. Dylent fod yn ymwybodol bod y termau'n gorgyffwrdd ac er y gallant fod yn fwy priodol mewn cyd-destunau penodol, mewn amgylchiadau eraill gallant fod yn gyfnewidiol.

Mae afiechyd yn deimlad goddrychol, a all fod ag achosion corfforol a/neu seicolegol.

Caiff clefyd ei gydnabod fel symptomau sy'n diffinio problem gorfforol neu seicolegol y gellir gwneud diagnosis ohoni.

Mae anhwylder yn ddiffyg o ran meinwe corff, organ neu system.

6.2 Categoriâu o afiechyd, clefyd ac anhwylder

Bydd angen i ymgeiswyr:

- Fod â dealltwriaeth sylfaenol o'r categorïau canlynol o afiechyd (*ill-health*), a rhoi o leiaf **ddwy** enghraifft o bob un:

Heintus - e.e. TB, ffliw

Diffyg - e.e. y llech, y llwg

Meddwl - e.e. iselder, anhwylder deubegwn

Cymdeithasol/dull o fyw - e.e. clefydau cysylltiad rhywiol, clefydau cysylltiedig ag ysmegu

Dirywiol - e.e. osteoarthritis, clefyd cardiofasgwlaidd

Wedi'i etifeddu - e.e. ffibrosis cystig, dallineb lliw coch-gwyrdd

Dylent hefyd fod yn ymwybodol y gallai fod gorgyffwrdd rhwng y categorïau.

6.3 Clefydau heintus

Bydd angen i ymgeiswyr wybod bod:

- Clefydau heintus yn cael eu hachosi gan bathogenau. Yn eu plith mae: bacteria, firysau, ffyngau (micro-organebau) yn ogystal â pharasitiaid endo ac ecto mwy (macro-organebau).
- Gellir trosglwyddo pathogenau o un unigolyn i'r llall trwy nifer o lwybrau:
 - Pyrth mynediad – trwy doriadau / agoriadau yn y croen, trwy'r llwybr resbiradu, pibell gastroberfeddol ac agoriadau wringenhedlol
 - Cyswllt - cyffwrdd, cusanu, cyfathrach rywiol
 - Trosglwyddiad diferion - peswch, tisian
 - Trosglwyddiad cyfrwng - dŵr, bwyd, gwaed, yn yr awyr
 - Fectorau anifail – pryfed, mosgito, llygod mawr

Dylai ymgeiswyr allu adnabod yr organeb achosol a disgrifio trosglwyddiad a symptomau **un** enghraifft o bob un o'r mathau canlynol o glefyd heintus:

- clefyd bacterol – h.y. Chlamydia neu MRSA
- Clefyd firol – h.y. y ffliw neu HIV
- Clefyd ffwngaid – h.y. tarwden y traed neu'r llindag
- Parasitaidd – endo neu ecto h.y. llau neu lyngyr

6.4 Rheoli clefyd heintus

Er mwyn lleihau'r perygl o drosglwyddo clefydau heintus, dylai ymgeiswyr wybod am y dulliau canlynol:

- Ymddygiad diogel - e.e. defnyddio condomau, arwahanu pobl wedi'u heintio (e.e. cleifion MRSA), defnyddio offer amddiffyn personol (e.e. menyng, ffedogau, mygydau)
- Arferion hylendid personol - e.e. rhwbiadau alcohol, golchi dwylo
- Datblygu a chynnal glanweithdra effeithiol, trin dŵr yfed
- Cynnal amgylchedd glân – dileu pathogenau posibl - amserlenni glanhau
 - Technegau diheintio cemegol e.e. glanweithdra arwynebau paratoi bwyd
 - Steryllu e.e. defnyddio ffyrnau aerglos.
 - Atal ail-halogi e.e. gofal ôl driniaeth lawfeddygol

Er mwyn atal / goresgyn clefydau heintus yn yr unigolyn, bydd angen i ymgeiswyr ddeall a gallu egluro:

- Mathau o imiwnedd
 - Imiwnedd naturiol - gweithredol a goddefol, gydag enghreifftiau o sut y gellir rhoi pob un
 - Imiwnedd a gymhellir yn artiffisial – gweithredol a goddefol, gydag enghreifftiau o sut y gellir rhoi pob un

Lle y bo hynny'n briodol, bydd angen rôl lymffocytâu yn y gwrthgyrff cynhyrchu a phresenoldeb lymffocytâu 'cof' ar ôl hynny.

- Y trefnau imiwneiddio cyffredin ar gyfer y camau bywyd canlynol:
 - Babandod a Phlentyndod.
 - Llencyndod
 - Oedrannus.
- Achosion pryder sy'n gysylltiedig ag imiwneiddio
 - Sgil effeithiau - ffurf wan o'r clefyd / adweithiau posibl
 - Parhad yr imiwnedd.
 - Barn ddiwylliannol a chredoau cysylltiedig ag imiwneiddio.

6.5 Clefydau ac anhwylderau anheintus

Ar gyfer pob un o'r clefydau / anhwylderau canlynol, bydd angen i ymgeiswyr wybod:

- y symptomau cyffredin a'r effeithiau ar yr unigolyn
 - yr achosion / ffactorau risg
 - o leiaf **un** dechneg ddiagnostig
 - o leiaf **un** ffurf o driniaeth
- Osteoporosis
 - Clefyd rhydweli goronaidd
 - Ffibrosis cystig

6.6 Strategaethau Atal Risg

Mae angen i ymgeiswyr wybod, deall a gwerthuso strategaethau a ddefnyddir i leihau'r risg o ddatblygu clefydau:

- Dewisiadau dull personol o fyw: bwyta ac ymarfer yn synhwyrol, monitro pwysau corff, cyfyngu cymeriant alcohol, peidio ag ysmegu neu ddefnyddio cyffuriau, hylendid personol da, rheoli straen.
- Strategaethau lleol – y cyfan yn darparu am yr anghenion a'r gofynion lleol: llyfrynnau gwybodaeth iechyd o ganolfannau iechyd leol, clinigau menywod a dynion iach, canolfannau cynllunio teulu, clinigau GUM, cynlluniau cerdyn c, ynghyd â rôl y Bwrdd Iechyd Lleol (canolfannau Cymru) neu'r Ymddiredolaethau Gofal Sylfaenol (canolfannau Lloegr), strategaethau lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru), strategaethau lechyd a Lles (Lloegr)
- Strategaethau Cenedlaethol: cynlluniau gwrth-ysmygu, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yfed, ymgyrch 5 y dydd, ymgyrchoedd clefydau cysylltiad rhywiol.
- Profion sgrinio a allai fod yn addas i'r boblogaeth gyfan neu ar gyfer grwpiau bregus penodol – pobl o oed penodol, pobl â hanes teuluol o glefyd arbennig a phobl sy'n cael eu cyflogi mewn swyddi peryglus.

Mae gofyn i ymgeiswyr hefyd fod â:

- Gwybodaeth gyffredinol o'r prif brofion sgrinio y gellir eu cynnal yn ystod bywyd unigolyn.
 - h.y. cyn-geini – uwchsain, amniocentesis, profion gwaed baban/plentyn – profion datblygiad, profion llygaid, profion clyw, mesur taldra/pwysau, archwilio'r dannedd, profion gwaed oedolyn/henoed – pwysedd gwaed, lefelau cholesterol, profion gwaed, mesur taldra/pwysau, profion ceg y groth, profion llygaid, mamograffeg, dwysedd esgyrn

Aseu

Caiff yr uned ei hasesu trwy arholiad allanol (1½ awr).

Bydd y prawf allanol yn asesu gwybodaeth yr ymgeisydd, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau'n ymwneud â chlefydau ac anhwylderau cyffredin. Bydd y prawf yn cynnwys cyfres o atebion byr a chwestiynau ymateb rhydd wedi'u seilio ar sefyllfaoedd astudiaethau achos mewn gwahanol gyd-destunau gwaith gyda chleientiaid ar wahanol gamau bywyd.

Bydd disgwyl hefyd i ymgeiswyr ddadansoddi data ymchwil i afiechydon, clefydau ac anhwylderau a gwerthuso a llunio barn ar sail y dystiolaeth.

Safon Uwch

Uned 7: Darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant

Rhagarweiniad

Mae'r uned U2 hon yn uned orfodol a gaiff ei hasesu'n allanol.

Yn yr uned hon, bydd angen i ymgeiswyr astudio'r prif wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant i gwrdd ag anghenion unigolion.

Mae'r uned hon yn cynnwys:-

- Darpariaeth gwasanaeth yn yr ardal leol
- Cwrdd ag anghenion unigolion
- Rolau ymarferwyr o fewn timau rhyngddisgyblaethol
- Gweithdrefnau sicrhau ansawdd
- Effeithiau polisi a deddfwriaeth genedlaethol ar ddarpariaeth gwasanaeth

Cynnwys

7.1 Darpariaeth gwasanaeth yn yr ardal leol

Dylai ymgeiswyr ddeall bod darpariaeth gwasanaethau gofal yn gymhleth ac yn newid yn gyflym.

Dylai ymgeiswyr allu cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:-

- Pwrpas y prif wasanaethau sydd â rhan mewn gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant:-

Gwasanaethau iechyd: Sylfaenol (e.e. canolfan iechyd, deintydd)
Eilaidd (Ysbytai)
Trydyddol (hosbisau, adfer)

Gwasanaethau gofal cymdeithasol: Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal preswyl, Gofal cymunedol (e.e. canolfannau dydd, gofal cartref, cludiant)

Gwasanaethau i blant: Addysg (meithrinfa, darpariaeth cyn-ysgol, ysgol gynradd)
Mabwysiadu a Maethu

- Sut mae'r sectorau gofal statudol, preifat / annibynnol, gwirfoddol ac anffurfiol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu amrediad cyflawn o wasanaethau yn yr ardal leol trwy economi cymysg o ofal
- Sut caiff y prif wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant eu trefnu a'u cyllido
- Sut caiff cynllunio gwasanaethau ei ddylanwadu gan nodweddion demograffig, h.y. anghenion iechyd, proffil oed y boblogaeth, nifer rhieni sengl, lefel diweithdra, anabledd, lefel difreintedd
- Sut mae safonau cenedlaethol, targedau a blaenoriaethau'n dylanwadu ar gynllunio lleol

7.2 Rolau ymarferwyr o fewn timau aml-ddisgyblaethol

Mae angen i ymgeiswyr ddeall y gwaith a wneir gan ymarferwyr gofal ffurfiol mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant a sut gallan nhw weithio'n unigol ac yn rhan o dîm.

Mae angen i ymgeiswyr ddeall:-

- Rolau penodol a chyfrifoldebau ymarferwyr
- Sut mae tîm aml-ddisgyblaethol yn gallu darparu gwasanaeth 'di-dor' trwy gyflwyno pecyn integredig o ofal i gwrdd ag anghenion unigolion
- Sut gall ymyrraeth gynnar ac atal fod o fudd i unigolion ac atal sefyllfa argyfwng

7.3 Cwrdd ag anghenion unigolion

Dylai ymgeiswyr ddeall bod rhaid i ymarferwyr gofal a swyddogion proffesiynol yn y maes adnabod anghenion newidiol corfforol, deallusol ac emosiynol unigolion ac ymateb i hyn a'r ffyrdd y gellir gwneud hyn

Mae angen i ymgeiswyr ddeall:-

- Pwrpas asesiadau a chynlluniau gofal unigol a'u pwysigrwydd wrth gwrdd ag anghenion unigolion
- Y prif gamau yn y cylch cynllunio gofal
- Pwysigrwydd bod unigolyn yn cymryd rhan yn y broses cynllunio gofal (ymrymuso)
- Sut caiff darpariaeth gwasanaeth ei theilwra i gwrdd ag anghenion unigol cleientiaid
- Sut gall unigolion elw o gynllunio gofal effeithiol
- Cyfraniad gofalwyr anffurfiol wrth gwrdd ag anghenion unigolion

7.4 Dulliau Sicrhau Ansawdd

Dylai ymgeiswyr ddeall bod materion ansawdd yn awr yn thema o bwys mewn polisi gofal cenedlaethol. Mae sefydliadau wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i ddarparu gwasanaethau sydd o safon uchel ac o gydnabod eu hatebolrwydd am wasanaethau o'r fath.

Mae angen i ymgeiswyr ddeall:-

- Sicrhau ansawdd mewn gofal.
- Sut mae sefydliadau'n gweithredu gweithdrefnau sicrhau ansawdd trwy:-
 - Rolau a chyfrifoldebau unigol
 - Gwella gwybodaeth, ymgynghori a chyfathrebu ag unigolion.
 - Datblygu gweithdrefnau cwynion effeithiol
 - Darparu cyfleoedd i staff / ymarferwyr ac unigolion wneud awgrymiadau a allai wella darpariaeth gwasanaeth
 - Gweithredu safonau gwasanaeth gofal o ansawdd e.e. Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol
 - Gwella gweithdrefnau cofrestru ac archwilio
- Sut mae sefydliadau'n rheoli ac yn monitro'r ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu trwy:-
 - Archwilio a gwerthuso ansawdd gwasanaethau a brofir gan unigolion
 - Gwobrwyo arfer da
 - Defnyddio mesurau perfformiad e.e. cyfraddau sêr
 - Gwella hyfforddiant o fewn y sector
 - Atebolrwydd i ymarferwyr gofal

Bydd angen i ymgeiswyr wybod am fentrau cyfredol y llywodraeth sydd wedi eu cynllunio i wella ansawdd darpariaeth gwasanaeth h.y. siarteri cleifion, siarteri dinasyddion, Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, Y Comisiwn Arolygon Gofal e.e. cyfraddau sêr, arolygon cleifion, nodau siarter.

7.5 Effeithiau polisi a deddfwriaeth genedlaethol ar ddarpariaeth gwasanaeth

Dylai ymgeiswyr ddeall effeithiau deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol ar arfer gofal a darpariaeth gwasanaeth gan gynnwys:-

- Trafod effeithiau posibl ar unigolion e.e. hawliau ac amddiffyn unigolion, mynediad i wasanaethau a rhwystrau, ymgynghori, rheoli anghenion unigol, cyfrinachedd a materion moesegol
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau ac ymarferwyr e.e. newidiadau mewn darpariaeth bresennol, trefniadau cydgyllido, mwy o atebolrwydd, newidiadau mewn rolau a chyfrifoldebau, cytundebau partneriaeth
- Yr effeithiau posibl ar arferion gofal ar lefel genedlaethol a lleol e.e. gwella ansawdd, newidiadau yn lefel a phatrwm darpariaeth gwasanaeth, targedu cronfeydd i gwrdd â blaenoriaethau cenedlaethol neu leol

Asesu

Caiff yr uned ei hasesu'n allanol ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad wedi'i seilio ar aseiniad gwaith cwrs, 10 awr o hyd a osodir gan y bwrdd. Argymhellir bod y gwaith yn cael ei gyfyngu i 2000 o eiriau.

Dylai'r gwaith gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- (a) Nodau ac ymchwiliad.
- (b) Ymchwil a dadansoddi data
- (c) Gwerthuso i gynnwys:
 - (i) Gweithdrefnau a ddefnyddir i gasglu data.
 - (ii) Casgliadau'r astudiaeth.

Caiff y gwaith ei farcio allan o 100 a'i asesu gan CBAC.

Meysydd i'w hasesu	Mwyafswm marciau
Nodau ac ymchwiliad	40
Ymchwil a dadansoddi	35
Gwerthuso	25
CYFANSWM	100

Uned 8: Deall Ymddygiad Dynol

Rhagarweiniad

Mae'r uned U2 hon yn uned orfodol a gaiff ei hasesu'n allanol

Trwy astudio'r uned hon, bydd ymgeiswyr yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o ddylanwadau sy'n gallu effeithio ar ddatblygiad dynol a'r cysyniadau a'r damcaniaethau y gellir eu defnyddio i egluro ymddygiad dynol o fewn gwahanol leoliadau gofal.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad unigolyn
- Damcaniaethau datblygiad dynol
- Cymwysiadau o ddamcaniaethau seicolegol i ddeall ymddygiad gwahanol unigolion mewn amrywiaeth o leoliadau gofal.
- Strategaethau cysylltiedig â'r damcaniaethau hyn.

Cynnwys

8.1 Ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad unigolyn

Bydd angen i ymgeiswyr wybod a deall sut mae'r ffactorau canlynol yn gallu dylanwadu ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol:

- **Etifeddiaeth** - geneteg, dylanwadau cromosomaidd, genoteipiau, ffenoteipiau ac aeddfedu, gwahaniaethau unigolion a grwpiau
- **Amgylchedd** - lleoliad, lefel cyflogaeth/diweithdra, llygredd, lefel troseddu
- **Economaidd gymdeithasol** - teulu, addysg, deiet, incwm, galwedigaeth, dosbarth cymdeithasol, tai, diwylliant, mynediad i wasanaethau iechyd
- **Seicolegol** - datblygu synnwyr o'r hunan, hunan-gysyniad, hunan-barch, cymradwyaeth a rhyngweithio rhieni / cymheiriaid

Bydd angen i ymgeiswyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae gwahanol ddylanwadau'n gallu rhyngweithio i effeithio ar ddatblygiad unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio at ddadl natur/magwraeth

8.2 Damcaniaethau datblygiad dynol

Bydd angen i ymgeiswyr wybod a deall yr agweddau canlynol ar ddatblygiad:

- **Seicodynamig:** pwysigrwydd y meddwl anymwybodol, pwysigrwydd profiadau cynnar; e.e. Freud, Erikson, Bowlby, Rutter
- **Dyneiddiol:** mae'r unigolion yn rhyngweithio â'u hamgylchedd cymdeithasol a chorfforol; Rogers, hunan wireddiad (*self-actualisation*); Maslow
- **Ymddygiadol:** rôl atgyfnerthu, cyflyru, Pavlov, Skinner
- **Gwybyddol:** Camau datblygiad Piaget; rhyngweithio cymdeithasol ac iaith; Vygotsky
- **Dysgu cymdeithasol:** effeithiau eraill, grwpiau, diwylliant a chymdeithas ar ymddygiad, proffwydoliaeth hunangyflawnol, theori rôl; Bandura
- **Biolegol:** damcaniaeth aeddfedu, dylanwadau genetig; Eysenck, Cattell, Gessell

8.3. Cymhwyso damcaniaethau seicolegol er mwyn deall ymddygiad gwahanol unigolion mewn amrywiaeth o leoliadau gofal

Bydd angen i ymgeiswyr wybod sut mae'r damcaniaethau'n galluogi gweithwyr gofal i helpu unigolion ar sail dydd-i-ddydd yn y lleoliadau gofal canlynol:

- Gofal cyn ysgol a lleoliadau addysgol - creche, meithrinfa ddydd, sesiynau mam a phlentyn, cylchoedd chwarae, gofalwyr plant.
- Lleoliadau gofal dydd i unigolion ag anabledau ac unigolion eraill - canolfannau dydd
- Lleoliadau preswyl - cartrefi preswyl a nyrsio, cyfleusterau tai gwarchod

8.4 Strategaethau cysylltiedig â'r damcaniaethau

Bydd angen i ymgeiswyr wybod sut y gellir defnyddio'r strategaethau a'r triniaethau canlynol i gwrdd ag anghenion unigolion:

- Seicdreiddiad a therapi chwarae
- Therapi person-ganolog a grwpiau cyfarfod
- Therapi ymddygiad, addasu ymddygiad, rhaglen atgyfnerthu â thalebau (*token economy*), rheoli amser am straen.
- Sgiliau synhwyrdd echddygol syml a chymhleth, chwarae geiriol a dychmygus gyda chymheiriaid ac oedolion; therapi ymddygiad gwybyddol
- Modelu, hyfforddiant sgiliau cymdeithasol a therapi teuluol
- Triniaethau corfforol/biolegol - cyffuriau, myfyrdod ac ymlacio, ystafelloedd synhwyrdd.

Asesu

Asesir yr uned hon trwy arholiad allanol a seilir ar gynnwys yr uned. Bydd un arholiad (2 awr).

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ymateb i gwestiynau ateb byr a chwestiynau ymateb rhydd strwythuredig ar destunau a drafodir yng nghynnwys yr uned hon.

Disgwylir i ymgeiswyr hefyd gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i sefyllfaoedd a data a roddir trwy werthuso tystiolaeth a llunio barn a chasgliadau rhesymegol.

Uned 9 : Gweithio mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rhagarweiniad

Mae'r uned U2 yn uned opsiynol a gaiff ei hasesu'n fewnol.

Nod yr uned hon yw helpu ymgeiswyr i baratoi ar gyfer cyflogaeth o fewn meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant. Bydd yn eu galluogi nhw i ystyried eu haddasrwydd eu hunain ar gyfer gwaith mewn gwahanol rolau swydd, a bydd yn rhoi cyfle iddynt adeiladu ar eu gwybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau / technegau gofal.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Y prif sectorau cyflogaeth mewn iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant
- Rolau swydd ymarferwyr
- Y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen ar ymarferwyr
- Sgiliau a thechnegau gofal i gwrdd ag anghenion unigolion

Cynnwys

9.1 Y prif sectorau cyflogaeth mewn iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant

Bydd angen i ymgeiswyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyfleoedd cyflogaeth niferus mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant o fewn y gwahanol sectorau:-

- **Y sector statudol** - GIG, darpariaeth Awdurdod Lleol h.y. Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (Blynyddoedd cynnar a darpariaeth ar gyfer anghenion arbennig)
- **Y Sector Annibynnol (Preifat)** - darparwyr sy'n gweithredu gwasanaethau ar sail elw / dim elw e.e. BUPA, cartrefi nyrsio, creche
- **Y sector gwirfoddol** - e.e. Age Concern, Barnado's

Dylen nhw hefyd ystyried y ffactorau a allai ddylanwadu ar argaeledd cyfleoedd gwaith yn genedlaethol ac yn lleol. Yn eu plith mae:

- Y sefyllfa wleidyddol ac economaidd.
- Datblygiadau technolegol newydd
- Ffactorau demograffig

9.2 Rolau swydd ymarferwyr

Bydd angen i ymgeiswyr ddod i wybod am, a deall, amrywiaeth eang o swyddi a rolau arbenigol mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant i gynnwys:-

- **Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau gweithwyr** - gwaith dydd-i-ddydd a disgrifiad swydd nodweddiadol, lefel cyfrifoldeb ac annibyniaeth
- **Amodau cyflogaeth** - tâl, cynnydd tâl fesul gris, goramser, hawliau pensiwn, patrymau gwaith / shifftiau, hawl i wyliau
- **Bodddhad swydd** - sicrwydd swydd, cyfleoedd am ddyrchafiad, amgylchedd gweithio, datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant
- **Gweithio mewn timau amlddisgyblaethol** - manteision ac anfanteision posibl i unigolion ac ymarferwyr o weithio mewn timau / mewn partneriaeth

9.3 Y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen ar ymarferwyr

Dylai ymgeiswyr wybod:-

- Y prif lwybrau i gyflogaeth yn y sectorau hyn e.e. academiaidd a galwedigaethol
- Gofynion Mynediad
- Rhinweddau personol e.e. gonestrwydd, dibynadwyedd, ymrwymiad
- Sgiliau - Sgiliau cyfathrebu effeithiol
Sgiliau TG
Gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm
Gallu i wneud penderfyniadau ac i arolygu eraill
Sgiliau penodol cysylltiedig â rolau swydd e.e. y gallu i yrru

9.4 Sgiliau a thechnegau gofal i gwrdd ag anghenion unigolion

Bydd angen i ymgeiswyr asesu sut mae ymarferwyr yn defnyddio'r sgiliau / technegau gofal canlynol a chyfathrebu effeithiol yn eu rolau swydd:-

- Annog
- Dangos cymeradwyaeth
- Creu ymddiriedaeth
- Ennill cydsyniad
- Canfyddiad cymdeithasol
- Arsylwi
- Ymddieithrio (*disengagement*)
- Gwrthdynciad
- Cyswllt corfforol
- Modelu
- Gweithio wrth ochr
- Gosod heriau
- Arferion gweithio diogel

Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad wedi'i seilio ar astudiaeth o ddwy rôl swydd wahanol mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant.

Rhagarweiniad a Nodau

Dylai hyn gynnwys:

- Nodau
- Y sectorau cyflogaeth mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant
- Yr amrywiol rolau swydd yn y gwasanaethau hyn
- Dewis a disgrifio'r ddwy rôl swydd a ddewiswyd

Prif gorff yr adroddiad:

Trwy ymchwil cynradd ac eilaidd adrodd ar:

- Rolau a swyddogaeth y rolau swydd a ddewiswyd
- Rhinweddau/sgiliau/hyfforddiant personol
- Y cyfleoedd cyflogaeth perthynol yn lleol a chenedlaethol
- Casglu a dehongli adborth oddi wrth ymarferwyr

Gwerthuso

Dylai hyn gynnwys:

- Llwyddiant yr adroddiad o ran cwrdd â nodau a osodwyd
- Addasrwydd y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i gasglu data
- Cymharu'r ddwy rôl swydd
- Hunanwerthuso – addasrwydd i weithio yn y rolau swydd a ddewiswyd
- Awgrymiadau ar gyfer gwelliant

Uned 9: Gweithio mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Tystiolaeth asesu:

Mae disgwyl i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad wedi'i seilio ar astudiaeth o **ddwy** rôl swydd wahanol mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant. Dylai'r dystiolaeth gynnwys:

- AA1** Dealltwriaeth o'r sectorau cyflogaeth mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar argaeledd swyddi.
- AA2** Disgrifiadau o ddwy rôl swydd wahanol sy'n dangos dealltwriaeth o brif ddyletswyddau ymarferwyr, amodau cyflogaeth, cymwysterau / hyfforddiant, rhinweddau personol a'r sgiliau sydd eu hangen.
- AA3** Ymchwil cynradd ac eilaidd perthnasol i ymchwilio i ddwy rôl swydd wahanol ac i bennu safbwyntiau a chanfyddiad ymarferwyr am eu rolau swydd, ac i ba raddau y mae'n cwrdd â'u hanghenion personol.
- AA4** Gwerthuso'r ddwy rôl swydd i gynnwys cymhariaeth o ymatebion ymarferwyr gyda gwybodaeth eilaidd wedi'i chasglu am rolau swydd, a hunanwerthuso i asesu addasrwydd yr ymgeisydd ei hun i weithio yn y rolau swydd hyn.

Amcan Asesu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA1</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi sectorau cyflogaeth statudol, gwirfoddol a phreifat. • Nodi dau gyfle cyflogaeth ym mhob sector. • Enwi dau ffactor sy'n dylanwadu ar argaeledd swyddi yn lleol <p>Bydd gan dystiolaeth ar y lefel hon fylchau sylweddol a bydd yn cynnwys anghywirdebau. Nid yw'n adlewyrchu dealltwriaeth o argaeledd swyddi. Dim defnydd o eirfa arbenigol.</p> <p>(0 - 3 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad sylfaenol o'r sectorau cyflogaeth statudol, gwirfoddol a phreifat, gan gyfeirio at wasanaethau ieched, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. • Nodir amrediad cyfyngedig o rolau swyddi • Disgrifio rhai o'r cyfleoedd cyflogaeth i weithwyr yn y ddwy rôl swydd yn y sectorau hyn. • Cynhyrchu tystiolaeth sy'n ystyried rhai o'r ffactorau sydd â dylanwad ar argaeledd swyddi yn lleol ac yn genedlaethol am y ddwy rôl swydd. <p>Gall fod gan dystiolaeth ar y lefel hon fylchau sylweddol a rhai anghywirdebau a bydd yn dangos cyfuno cyfyngedig o wybodaeth a gasglwyd, gyda dealltwriaeth gyfyngedig o amrywiol ffactorau sy'n effeithio ar argaeledd swyddi. Efallai y defnyddir peth geirfa arbenigol.</p> <p>(4 - 7 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad manwl o'r sectorau cyflogaeth statudol, gwirfoddol a phreifat, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae'r gwasanaethau ieched, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn rhan o'r categorïau hyn. • Nodir amrediad eang o rolau swyddi ar gyfer y gwahanol wasanaethau gofal. • Disgrifio amrediad y cyfleoedd cyflogaeth i weithwyr yn y ddwy rôl swydd yn y sectorau hyn. • Cynhyrchu tystiolaeth sy'n ystyried amrediad eang o'r ffactorau sydd â dylanwad ar argaeledd swyddi yn lleol ac yn genedlaethol am y ddwy rôl swydd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn dangos dealltwriaeth a chywirdeb uwch a bydd yn dangos peth tystiolaeth o gyfuno'r wybodaeth a gasglwyd, gyda dealltwriaeth uwch o'r amrediad o ffactorau sy'n effeithio ar argaeledd swyddi. Caiff geirfa arbenigol ei defnyddio'n gywir.</p> <p>(8 – 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad manwl ond cyflawn o'r sectorau cyflogaeth statudol, gwirfoddol a phreifat, gan egluro'n glir sut y gallai gwasanaethau ieched, gofal cymdeithasol a blynyddoedd fod yn rhan o bob un o'r categorïau hyn. • Nodir amrediad cynhwysfawr o rolau swyddi o fewn y gwasanaethau ieched, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. • Disgrifio'n fanwl amrediad a maint y cyfleoedd cyflogaeth i weithwyr yn y ddwy rôl swydd yn y sectorau hyn. • Cynhyrchu tystiolaeth sy'n ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar argaeledd swyddi yn lleol ac yn genedlaethol am y ddwy rôl swydd, yn awr ac yn y dyfodol. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth a chywirdeb a bydd yn dangos tystiolaeth o gyfuno'n effeithiol y wybodaeth a gasglwyd, gyda dealltwriaeth gadarn o'r amrediad o ffactorau sy'n effeithio ar argaeledd swyddi. Caiff geirfa arbenigol ei defnyddio'n gywir heb wybodaeth amherthnasol.</p> <p>(12 – 15 marc)</p>

Amcan Asesu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA2</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhestru prif ddyletswyddau'r ddau ymarferwr. • Adnabod y cymwysterau angenrheidiol am bob rôl swydd. • Cyflwyno rhestr o'r rhinweddau personol a'r sgiliau sydd eu hangen ar y ddau ymarferwr <p>Bydd gan dystiolaeth ar y lefel hon fylchau sylweddol a bydd yn cynnwys anghywirdebau. Dim defnydd o eirfa arbenigol.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio prif ddyletswyddau ymarferwyr mewn dwy rôl swydd wrthgyferbyniol a'u cyfraniad at weithio mewn tîm. • Rhoi disgrifiadau cywir o'r prif lwybrau mynediad / cymwysterau, a chofrestru proffesiynol sy'n berthnasol i'r ddwy rôl swydd. • Disgrifio rhai o'r rhinweddau a'r sgiliau personol priodol sydd eu hangen ar yr ymarferwyr yn y ddwy rôl swydd. • Dangos peth dealltwriaeth o gysyniadau'r amodau gwasanaeth gan eu cymhwyso'n gyfyngedig i'r ddwy rôl swydd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei hysgrifennu mewn modd sy'n cyfleu ystyr ond sy'n ddiffygiol o ran defnydd o eirfa arbenigol a gall gael ei chyfyngu i ddisgrifiad damcaniaethol o rolau swydd gydag ychydig gymhwyso wybodaeth a dealltwriaeth.</p> <p>(6 - 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio, yn fanwl, prif ddyletswyddau ymarferwyr mewn dwy rôl swydd wrthgyferbyniol a'u cyfraniad at weithio mewn tîm. • Rhoi disgrifiadau cywir o'r prif lwybrau mynediad / cymwysterau, a chofrestru proffesiynol sy'n berthnasol i'r ddwy rôl swydd. • Esbonio pwysigrwydd rhinweddau a sgiliau personol priodol sydd eu hangen ar yr ymarferwyr yn y ddwy rôl swydd. • Dangos dealltwriaeth glir o gysyniadau amodau gwasanaeth ac yn cymhwyso hyn yn gywir i'r ddwy rôl swydd, gan ddisgrifio'r effeithiau ar ymarferwyr. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn cyfleu ystyr yn glir, yn berthnasol ar y cyfan, gan ddefnyddio geirfa arbenigol gydag ychydig o anghywirdebau. Dylai ymgeiswyr ddangos eu gallu i gyfuno gwybodaeth yn effeithiol gyda chymhwysiad uwch o wybodaeth a dealltwriaeth i'r ddwy rôl swydd.</p> <p>(12 - 18 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio'n fanwl brif ddyletswyddau ymarferwyr mewn dwy rôl swydd wrthgyferbyniol ac esbonio manteision ac anfanteision posibl iddyn nhw o weithio mewn tîm. • Rhoi disgrifiadau cywir o'r gwahanol lwybrau mynediad / cymwysterau, a chofrestru proffesiynol sy'n berthnasol i'r ddwy rôl swydd. • Rhoi esboniad clir o'r ffyrdd y bydd y ddau ymarferwr yn defnyddio sgiliau a rhinweddau personol priodol, gan ddadansoddi'r manteision i unigolion yn eu gofal. • Dangos dealltwriaeth glir o gysyniadau amodau gwasanaeth ac yn cymhwyso hyn yn gywir i'r ddwy rôl swydd, gan ddisgrifio'u heffeithiau ar ymarferwyr. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn cyfleu ystyr yn glir, heb wybodaeth amherthnasol, ac yn defnyddio geirfa arbenigol yn gywir. Dylai ymgeiswyr ddangos eu gallu i gyfuno gwybodaeth yn effeithiol iawn gyda chymhwysiad trylwyr o wybodaeth a dealltwriaeth i'r ddwy rôl swydd.</p> <p>(19 - 25 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA3</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Disgrifio rolau ymarferwyr. Cofnodi barn ymarferwyr am eu prif ddyletswyddau. <p>Mae tystiolaeth ar y lefel hon yn ddiffygiol o ran cynllunio ac mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn gyfyngedig. Mae bylchau ac anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio amrediad cul o ffynonellau i ymchwilio i rolau swydd Cynnal cyfweiliadau, i bennu barn ymarferwyr am eu prif ddyletswyddau, amodau gwasanaeth, a boddhad swydd. Cynnig tystiolaeth o brif ganfyddiadau'r cyfweiliadau sy'n crynhoi barn yr ymarferwyr. <p>Mae tystiolaeth ar y lefel hon yn debygol o ddangos cynllunio a sgiliau trefniadol ac ystyriaeth foesegol gyfyngedig. Mae'r dystiolaeth yn brin o fanylion ac yn cynnwys bylchau a / neu anghywirdebau. Gall adroddiad y cyfweiliad gynnwys gwybodaeth amherthnasol.</p> <p>(7 - 14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio amrediad eang o ffynonellau i ymchwilio i rolau swydd. Cynllunio a chynnal cyfweiliadau, gan ddefnyddio amrywiaeth o fathau o gwestiynau i bennu barn ymarferwyr am eu prif ddyletswyddau, amodau gwasanaeth, a boddhad swydd. Darparu tystiolaeth fanwl am brif ganfyddiadau'r cyfweiliadau mewn adroddiad clir sy'n crynhoi'n gywir farn yr ymarferwyr ac yn dadansoddi i ba raddau mae eu swydd yn cwrdd â'u hanghenion personol. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn fwy manwl, gan ddangos cynllunio a sgiliau trefniadol effeithiol a rhai gweithdrefnau moesegol gywir, gyda dim / ychydig anghywirdebau. Dylai adroddiad y cyfweiliad fod yn fanwl gydag ychydig fylchau a dim gwybodaeth amherthnasol.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio amrediad eang o ffynonellau i ymchwilio i rolau swydd. Cynllunio a chynnal cyfweiliadau wedi eu strwythuro'n dda, gan ddefnyddio amrywiaeth o fathau o gwestiynau i bennu barn ymarferwyr am eu prif ddyletswyddau, amodau gwasanaeth, a boddhad swydd. Cynnig tystiolaeth fanwl o brif ganfyddiadau'r cyfweiliadau mewn adroddiad clir, cywir sydd wedi ei ysgrifennu'n dda, sy'n dehongli ac yn crynhoi'n gywir farn yr ymarferwyr, ac yn dadansoddi i ba raddau mae eu swydd yn cwrdd â'u hanghenion personol. <p>Dylai tystiolaeth ar y lefel hon fod yn fanwl ac yn drylwyr, gan ddangos sgiliau trefniadol systematig, gweithdrefnau moesegol gywir a dim anghywirdebau. Dylai'r adroddiad fod yn fanwl, ond yn gryno, heb wybodaeth amherthnasol a dylai gyfiawnhau'r rhagofalon moesegol a gymerwyd.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA4</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esbonio sut caiff sgiliau gofal eu defnyddio ym mhob rôl swydd. • Cyflwyno disgrifiad byr o'u haddasrwydd eu hunain i weithio yn un o'r rolau. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn canolbwyntio ar y cadarnhaol, bydd y gwaith yn arwynebol, yn brin o fanylion ac yn cynnwys bylchau ac anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio'r cymariaethau mwy amlwg rhwng ymatebion yr ymarferwr a disgrifiadau'r ddwy rôl swydd ar sail ymchwil eilaidd • Gwerthuso'r defnydd o sgiliau / technegau gofal a ddefnyddir yn y ddwy rôl swydd. • Gwerthuso eu haddasrwydd eu hunain i weithio yn y rolau swydd. • Gwerthuso'r dulliau a ddefnyddir i gasglu data. • Gwerthuso llwyddiant yr adroddiad a rhoi un awgrym ar gyfer gwella. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn brin o fanylion ac yn cynnwys bylchau a / neu anghywirdebau.</p> <p>(7 - 14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio cymariaethau mwy manwl rhwng ymatebion yr ymarferwr a disgrifiadau'r ddwy rôl swydd ar sail ymchwil eilaidd • Gwerthuso'r defnydd o sgiliau / technegau gofal yn y ddwy rôl swydd, gan esbonio'r manteision i ymarferwyr. • Cynhyrchu gwerthusiad manwl o'u haddasrwydd eu hunain i weithio yn y rolau swydd. • Gwerthuso'n fanwl, gyda rhywfaint o gyfiawnhau, y dulliau a ddefnyddir i gasglu data. • Gwerthuso llwyddiant yr adroddiad wrth gwrdd ag amcanion, gan roi awgrymiadau realistig ar gyfer gwella. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn fwy manwl a bydd yn cynnwys ychydig fylchau a / neu anghywirdebau.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio cymariaethau manwl rhwng ymatebion yr ymarferwyr a'r disgrifiadau o'r ddwy rôl swydd sy'n gyson â'r holl dystiolaeth a gasglwyd. • Gwerthuso'r defnydd o sgiliau / technegau gofal a ddefnyddir yn y ddwy rôl swydd, gan esbonio'r manteision i'r ymarferwyr a'r unigolion yn eu gofal. • Cynhyrchu gwerthusiad manwl o'u haddasrwydd eu hunain i weithio yn y rolau swydd hyn. • Cynhyrchu gwerthusiad cynhwysfawr sy'n amlwg yn cyfiawnhau'r dulliau a ddefnyddir i gasglu data. • Gwerthuso llwyddiant yr adroddiad yn fanwl, gan roi awgrymiadau cadarn, realistig ar gyfer gwella. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn gyflawn heb fylchau nac anghywirdebau.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

Uned 10: Gofalu am Unigolion Hŷn

Rhagarweiniad

Mae'r uned U2 hon yn uned opsiynol a gaiff ei hasesu'n fewnol.

Nod yr uned hon yw ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broses heneiddio a'r ddarpariaeth o wasanaethau lleol sydd ar gael i unigolion hŷn. Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar sut mae cwrdd ag anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol unigolion hŷn trwy ofal a gynigir gan ddarparwyr ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Effeithiau corfforol a gwybyddol heneiddio
- Effaith ffactorau cymdeithasol, emosiynol ac economaidd ar heneiddio
- Gwasanaethau gofal a chefnogaeth i unigolion hŷn
- Rhwystrau a mynediad i wasanaethau
- Rôl gweithwyr gofal proffesiynol
- Hawliau ac amddiffyniad i unigolion hŷn

Cynnwys

10.1 Effeithiau corfforol a gwybyddol heneiddio

Dylai ymgeiswyr wybod a deall sut caiff y corff ei effeithio gan y broses heneiddio a sut y gall gael effaith ar fywyd bob dydd.

Dylai hyn gynnwys:

- Damcaniaethau biolegol heneiddio - gan gynnwys damcaniaeth seicogymdeithasol Erikson; damcaniaeth ymddieithrio cymdeithasol; damcaniaeth gweithgaredd.
- Cyflyrau a chlefydau sy'n effeithio ar y galon a chylchrediad – gan gynnwys colli effeithlonrwydd, clefyd y galon, pwysedd gwaed a cholesterol uwch, trawiad a chamweithrediad y galon, sglerosis
- Anhwyllderau'r system resbiradu - gan gynnwys diffyg anadl, bronchitis, emffysema, COPD (Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint)
- Amhariadau synhwyraidd - gan gynnwys dirywiad yn y golwg a'r clyw
- Anhwyllderau cyhyrol-ysgerbydol - gan gynnwys gwynegon, arthritis gwynegol, osteoporosis, colli elastigedd yn y croen
- Cyflyrau a chlefydau sy'n effeithio ar y system nerfol - gan gynnwys strôc, dementia a chlefyd Alzheimer, clefyd Parkinson
- Clefydau llesgáu eraill - Diabetes Math 2, anymataliaeth, anawsterau cyfathrebu a gordewdra

10.2 Effaith ffactorau cymdeithasol, emosiynol ac economaidd ar heneiddio

Dylai ymgeiswyr ddeall sut gallai'r ffactorau canlynol cysylltiedig â heneiddio gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar ansawdd bywyd unigolion hŷn.

Mae hyn yn cynnwys:-

- Ffactorau cymdeithasol - arwahanrwydd / tai annigonol/anaddas, diffyg prysurdeb, diffyg cyswllt / cefnogaeth gymdeithasol, anawsterau cludiant, dibyniaeth gynyddol oherwydd newidiadau mewn anghenion iechyd a gofal, gweithgareddau hamdden, tueddiadau a chredoau diwylliannol, agweddau cymdeithas at unigolion hŷn, amser i ddilyn gweithgareddau hamdden a theithio, cymryd rhan mewn bywyd cymunedol, treulio amser gydag wyrion / teulu
- Ffactorau emosiynol - colli hyder, pryder ac iselder, profedigaeth
- Ffactorau economaidd - incwm is, perygl tlodi, manteision i unigolion hŷn

10.3 Gwasanaethau gofal a chefnogaeth i bobl hŷn

Darparu gwasanaeth

Yn aml mae ar bobl hŷn angen mwy o wasanaethau a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai ymgeiswyr wybod a deall patrwm cyfredol darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i unigolion hŷn yn eu hardal leol.

Mae hyn yn cynnwys:-

- Darpariaeth Ffurfiol - trwy ddarparwyr statudol, preifat / annibynnol a gwirfoddol, gan gynnwys
- Gofal Iechyd: Meddyg Teulu; gwasanaethau ysbyty; trin traed; ffisiotherapi; therapi galwedigaethol; iechyd cymunedol, gofal canolraddol, adfer, gofal lliniarol, offer a chludiant gofal iechyd arbenigol, gofal nyrsio mewn cartrefi gofal neu leoliadau eraill, gwasanaethau iechyd meddwl.
- Gofal Cymdeithasol: tai gwarchod; gofal preswyl; gofal cartref nyrsio; gofal dydd; gofal cartref; asesu anghenion / rheoli gofal, gofal seibiant, darparu prydau, cymhorthion / addasiadau, cludiant, gwasanaethau iechyd meddwl, buddion lles, gwasanaethau hamdden.
- Darpariaeth Anffurfiol - y gefnogaeth a gynigir i unigolion gan y teulu, ffrindiau, cymdogion a grwpiau cefnogi lleol

Dylai ymgeiswyr ddeall manteision y ddau fath o wasanaeth a sut mae gofalwyr anffurfiol yn cefnogi gwaith darparwyr ffurfiol. Dylent wybod a deall sut mae cynllunio gwasanaeth ar y cyd yn galluogi unigolion i dderbyn amrywiaeth o wasanaethau cefnogi wedi'u teilwra i gwrdd ag anghenion unigol.

10.4 Mynediad a rhwystrau i wasanaethau

Dylai ymgeiswyr wybod bod gan unigolion hawliau penodol i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol ond efallai bod angen iddyn nhw wneud cais am rai gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae angen i ymgeiswyr wybod a deall y:-

- Ffyrdd o gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys dulliau o gyfeirio, meini prawf cymhwyster, asesu anghenion
- Rhwystrau sy'n wynebu unigolion wrth gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys rhai daearyddol; corfforol; seicolegol; ariannol; rhwystrau adnoddau a hygyrchedd gwybodaeth
- Costau gwasanaethau - gwasanaethau sydd am ddim ar bwynt cyflwyno, defnyddio prawf modd am wasanaethau, bodloni meini prawf cymhwyster

10.5 Rôl gweithwyr gofal proffesiynol

Mae angen i ymgeiswyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o brif swyddogion iechyd a gofal cymdeithasol, eu prif rôl a ble maen nhw.

Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Swyddogion gofal iechyd - Meddyg Teulu, geriatregydd ymgynghorol, nyrs gymunedol, ymwelydd iechyd, optegydd, deintydd, ciropodydd, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol, cynghorydd ymataliaeth (*continence advisor*), nyrs seiciatrig gymunedol
- swyddogion gofal cymdeithasol - gweithiwr cymdeithasol, rheolwr gofal, gweithwyr gofal cartref, gweithwyr canolfan dydd / cefnogi

Dylai ymgeiswyr hefyd ddeall y gefnogaeth werthfawr a gynigir gan wirfoddolwyr mewn amrywiaeth o leoliadau e.e. siopau elusen, llinellau cymorth, ymgyfeillio neu ymweld ag unigolion hŷn, darparu cludiant.

10.6 Hawliau ac amddiffyniad i unigolion hŷn

Mae angen i ymgeiswyr wybod sut gellir amddiffyn hawliau unigolion hŷn yn y gyfraith. Dylen nhw ddeall effaith y ddeddfwriaeth ganlynol ar ofal unigolion hŷn:-

- Deddf GIG a Gofal Cymunedol 1990
- Deddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995
- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Deddf Iechyd 1999

Dylai ymgeiswyr ddeall pwysigrwydd Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer unigolion hŷn.

Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a disgwylir i ymgeiswyr gynhyrchu astudiaeth achos manwl wedi'i seilio ar effeithiau heneiddio a'r anghenion gofal yn sgil hynny i un unigolyn hŷn.

Dylen nhw ymchwilio i sut mae gwasanaethau ffurfiol iechyd a gofal cymdeithasol yn bodloni anghenion yr unigolyn a ddewiswyd.

Rhagarweiniad

- Nodau ac amcanion
- Damcaniaethau'r broses heneiddio
- Effeithiau heneiddio - yn rhai corfforol a gwybyddol

Astudiaeth achos (rhaid cynnal cyfrinachedd yr unigolyn)

- Dewis yr unigolyn hŷn ac effeithiau cyflyrau cysylltiedig ag oed ar ei fywyd/bywyd bob dydd
- Effeithiau ffactorau cymdeithasol, economaidd ac emosiynol ar yr unigolyn
- Y gwasanaethau a ddefnyddir gan yr unigolyn yn ffurfiol ac yn anffurfiol
- Dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd

Gwerthuso

- Cwrdd â nodau'r adroddiad
- Asesu a gwerthuso'r gwasanaethau a dderbyniwyd, wrth gwrdd ag anghenion yr unigolyn a sut gellir gwella'r rhain
- Materion moesegol cysylltiedig â'r astudiaeth
- Priodoldeb gweithdrefnau a ddefnyddiwyd ac awgrymiadau am welliannau

Uned 10: Gofalu am Bobl Hŷn

Tystiolaeth asesu:

Mae disgwyl i ymgeiswyr gynhyrchu astudiaeth achos fanwl ar effeithiau heneiddio ar **un** unigolyn hŷn sydd angen lefel uchel o gefnogaeth gan wasanaethau iechyd a / neu wasanaethau gofal cymdeithasol.

- AA1** Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broses heneiddio a'i heffeithiau ar unigolion hŷn, gan gynnwys disgrifiad manwl o gyflyrau cysylltiedig ag oed sy'n effeithio ar yr unigolyn a ddewiswyd.
- AA2** Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r unigolion a ddewiswyd trwy asesu effaith heneiddio ar eu bywyd bob dydd a sut caiff hyn ei effeithio gan ffactorau cymdeithasol, economaidd ac emosiynol.
- AA3** Ymchwil berthnasol a dadansoddi i ymchwilio i'r cymorth a'r gefnogaeth a gynigir trwy ddarpariaeth gwasanaeth lleol a gofal anffurfiol i'r unigolyn a ddewiswyd.
- AA4** Gwerthuso pa mor dda y bodlonwyd anghenion yr unigolyn ac effeithlonrwydd darpariaeth y gwasanaeth a gynigiwyd.

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA1</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amlinellu rhai ffactorau o heneiddio corfforol. • Nodi cyflyrau cysylltiedig ag oed sy'n effeithio ar yr unigolyn. <p>Bydd gan dystiolaeth ar y lefel hon fylchau sylweddol a bydd yn cynnwys anghywirdebau. Dim defnydd o eirfa arbenigol.</p> <p>(0 - 3 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio'r newidiadau corfforol a gwybyddol mwy amlwg sy'n digwydd yn ystod y broses heneiddio. • Rhoi disgrifiad sylfaenol o gyflyrau cysylltiedig ag oed sy'n effeithio ar yr unigolyn. <p>Gall fod gan dystiolaeth ar y lefel hon rai bylchau ac anghywirdebau, gyda chyfuno cyfyngedig o wybodaeth a gasglwyd. Ychydig ddefnydd o eirfa dechnegol.</p> <p>(4 - 7 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad manwl o'r newidiadau corfforol a gwybyddol sy'n digwydd yn ystod y broses heneiddio. • Amlinellu damcaniaethau sylfaenol am heneiddio. • Rhoi disgrifiad manwl o gyflyrau cysylltiedig ag oed sy'n effeithio ar yr unigolyn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn dangos mwy o ddyfnder dealltwriaeth a chywirdeb gyda chyfuno effeithiol o wybodaeth a gasglwyd. Defnyddir geirfa dechnegol gydag ychydig anghywirdebau.</p> <p>(8 - 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi esboniad manwl o'r newidiadau corfforol a gwybyddol syn digwydd yn ystod y broses heneiddio mewn perthynas â gwahanol ddamcaniaethau heneiddio. • Rhoi disgrifiad trylwyr o gyflyrau cysylltiedig ag oed sy'n effeithio ar yr unigolyn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth a chywirdeb gyda chyfuno effeithiol o wybodaeth a gasglwyd. Defnydd cywir o eirfa dechnegol heb wybodaeth amherthnasol.</p> <p>(12 - 15 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
AA2	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi effeithiau cyflyrau cysylltiedig ag oed ar yr unigolyn a ddewiswyd. Disgrifio'n gryno effeithiau ffactorau economaidd ac emosiynol ar yr unigolyn. <p>Mae tystiolaeth ar y lefel hon yn cyfleu ychydig iawn o ystyr, heb ddefnydd o eirfa arbenigol.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Disgrifio effeithiau cyflyrau cysylltiedig ag oed ar fywyd bob dydd yr unigolyn a ddewiswyd. Yn dangos peth cymhwysiad o wybodaeth a dealltwriaeth i ddisgrifio effeithiau ffactorau economaidd ac emosiynol ar yr unigolyn <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei hysgrifennu mewn dull sy'n cyfleu ystyr ond sy'n brin o'r defnydd o eirfa arbenigol.</p> <p>(6 - 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Esbonio effeithiau cyflyrau cysylltiedig ar oed ar fywyd bob dydd yr unigolyn a ddewiswyd. Yn dangos cymhwysiad uwch o wybodaeth a dealltwriaeth i ddisgrifio effeithiau ffactorau economaidd ac emosiynol ar yr unigolyn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei hysgrifennu mewn dull sy'n cyfleu ystyr yn glir, gan ddefnyddio peth geirfa arbenigol, a chan ddangos cyfuno gwybodaeth yn effeithiol i ddisgrifio ac i esbonio effeithiau corfforol a chymdeithasol cyflyrau cysylltiedig ag oed ar yr unigolyn, gan ystyried y ffactorau sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd.</p> <p>(12 - 18 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <p>Rhoi esboniad trylwyr o effeithiau cyflyrau cysylltiedig ag oed ar fywyd bob dydd yr unigolyn a ddewiswyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn dangos cymhwysiad trylwyr o wybodaeth a dealltwriaeth i ddisgrifio effeithiau ffactorau cymdeithasol, economaidd ac emosiynol ar yr unigolyn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei hysgrifennu mewn dull sy'n cyfleu ystyr yn glir, heb wybodaeth amherthnasol, gan ddefnyddio geirfa arbenigol, a chan ddangos cyfuno gwybodaeth yn effeithiol iawn i ddisgrifio ac i esbonio'n fanwl effeithiau corfforol a chymdeithasol cyflyrau cysylltiedig ag oed ar yr unigolyn, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r ffactorau sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd.</p> <p>(19 - 25 marc)</p>

Amcan Asesu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA3</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Enwi dau wasanaeth lleol sy'n darparu cymorth i'r unigolyn. • Disgrifio unrhyw ofal anffurfiol sydd ar gael i'r unigolyn. <p>Mae tystiolaeth ar y lefel hon yn gyfyngedig, heb ddangos cynllunio, sgiliau arsylwi nac ystyriaethau moesegol.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio amrediad cul o ffynonellau i ymchwilio i ddarpariaeth leol i'r unigolyn. • Cynnal cyfweiliadau i bennu'r math o ofal anffurfiol y mae'r unigolyn yn ei dderbyn. • Dangos peth sgiliau wrth ddadansoddi peth o'r wybodaeth a gasglwyd i gynhyrchu adroddiad sy'n disgrifio effeithiau heneiddio ac sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddefnyddir gan yr unigolyn. <p>Gall tystiolaeth ar y lefel hon fod yn gyfyngedig, gan ddangos diffyg sgiliau trefnu a chynllunio, gydag ychydig neu ddim sylw i ystyriaethau moesegol.</p> <p>(7 - 14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio amrediad o ffynonellau i ymchwilio i ddarpariaeth leol i'r unigolyn. • Llunio holiadur a chynnal cyfweiliadau i bennu'r math o ofal anffurfiol y mae'r unigolyn yn ei dderbyn. • Dangos lefel foddhaol o sgiliau wrth ddadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd i esbonio effeithiau heneiddio a disgrifio'r gwasanaethau a ddefnyddir gan yr unigolyn. <p>Dylai tystiolaeth ar y lefel hon adlewyrchu sgiliau trefnu a chynllunio effeithiol gyda pheth tystiolaeth o ystyriaethau moesegol. Bydd y gwaith wedi ei drefnu'n dda gydag ychydig fylchau / anghywirdebau.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio amrediad eang o ffynonellau i ymchwilio i ddarpariaeth leol i'r unigolyn. • Llunio holiaduron a chynnal cyfweiliadau sydd wedi eu strwythuro'n dda i bennu'r math o ofal anffurfiol y mae'r unigolyn yn ei dderbyn. • Dangos lefel uchel o sgil wrth ddadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd i ddarparu esboniad manwl o effeithiau heneiddio a disgrifio'n fanwl y gwasanaethau a ddefnyddir gan yr unigolyn. <p>Dylai tystiolaeth ar y lefel hon adlewyrchu cynllunio manwl, trylwyr, gan ddangos sgiliau trefnu systematig, gweithdrefnau moesegol gywir a dim anghywirdebau. Dylai'r gwaith fod yn fanwl, ond yn gryno ac wedi'i drefnu'n dda.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA4</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio sut mae anghenion yr unigolyn wedi'u cwrdd. • Nodi cryfderau'r gwasanaethau a gynigiwyd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn cyfleu ychydig iawn o ystyr, heb ddefnydd o eirfa arbenigol.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso peth o'r dystiolaeth i aseu pa mor dda mae anghenion yr unigolyn wedi eu cwrdd trwy'r ddarpariaeth gwasanaeth a darparwyr anffurfiol. • Rhoddir peth ystyriaeth i effeithlonrwydd y gwasanaethau a gyflwynir trwy gynllunio gwasanaeth ar y cyd a dylanwad Fframwaith Cenedlaethol i Bobl Hŷn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn brin o fanylion ac yn cynnwys bylchau difrifol.</p> <p>(7 - 14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth i aseu pa mor dda mae anghenion yr unigolyn wedi eu bodloni trwy'r ddarpariaeth gwasanaeth a darparwyr anffurfiol. • Rhoddir ystyriaeth i effeithlonrwydd y gwasanaethau a gyflwynir trwy gynllunio gwasanaeth ar y cyd a dylanwad Fframwaith Cenedlaethol i Bobl Hŷn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn fwy manwl, gan gynnwys ychydig fylchau</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso'r holl dystiolaeth i aseu pa mor dda mae anghenion yr unigolyn wedi eu bodloni trwy'r ddarpariaeth gwasanaeth a darparwyr anffurfiol. • Rhoddir ystyriaeth drylwyr i effeithlonrwydd y gwasanaethau a gyflwynir trwy gynllunio gwasanaeth ar y cyd a dylanwad Fframwaith Cenedlaethol i Bobl Hŷn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn fanwl ond yn gyflawn, heb fylchau</p> <p>(23 – 30 marc)</p>

Uned 11: Rôl Therapïau Cyflenwol wrth Ofalu am Unigolion

Rhagarweiniad

Mae'r uned U2 hon yn uned opsiynol a gaiff ei hasesu'n fewnol.

Nod yr uned yw rhoi cyfle i ymgeiswyr archwilio'r defnydd o therapïau cyflenwol a sut y gellir eu defnyddio'n gyfannol i gefnogi therapïau confensiynol.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Diffiniadau o therapïau cyflenwol
- Dosbarthiad therapïau cyflenwol ac amgen
- Cwrdd ag anghenion unigolion
- Lleoliadau sy'n darparu therapïau cyflenwol
- Rolau ymarferwyr sy'n cymryd rhan mewn therapïau cyflenwol
- Tueddiadau a barn gyfredol ar ddefnyddio therapïau cyflenwol

Cynnwys

11.1 Diffiniadau o therapïau cyflenwol

Dylai ymgeiswyr ddeall y termau allweddol a ddefnyddir i ddisgrifio therapïau a'r cysyniadau sy'n gysylltiedig â'u defnyddio.

Mae hyn yn cynnwys:-

Golwg hanesyddol ar therapïau cyflenwol - gan gynnwys defnyddio meddyginiaethau traddodiadol, yr athroniaeth sy'n sail iddynt a'r egwyddorion y maent yn gweithio arnynt.

- Y gwahaniaethau rhwng therapïau confensiynol (arferol) h.y. rhai wedi'u seilio ar feddygaeth ar sail tystiolaeth; therapïau cyflenwol h.y. therapïau ychwanegol a ddefnyddir gan gleifion sy'n derbyn therapïau / triniaeth gonfensiynol; a therapïau amgen h.y. therapïau a ddefnyddir yn lle triniaethau confensiynol.
- Cysyniad cyfaniaeth - agwedd gyfannol at iechyd a lles. Nid symptomau corfforol neu seicolegol claf a gaiff eu trin yn hon, ond hefyd ystyrir eu teimladau emosiynol ac ysbrydol fel rhan o'r driniaeth.

11.2 Dosbarthu therapïau cyflenwol ac amgen

Dylai ymgeiswyr ddeall bod gwahanol ffyrdd o gategoreiddio therapïau ac y gall therapïau ffitio i fwy nag un dosbarth.

Mae'r rhain yn cynnwys:-

- **Corfforol** - therapïau sy'n gweithio ar system ffisiolegol y corff i ryddhau endorffinau neu i hybu systemau cylchredol a dod â theimlad o les e.e. tylino'r corff, ciropacteg, aciwbigo, reiki, adweitheg
- **Mynegiannol/ Creadigol** - therapïau lle yr anogir pobl i fynegi eu hemosiynau e.e. therapi celf, therapi cerdd
- **Gwybyddol/ Deallusol** - therapïau sy'n hybu gwella trwy ddefnyddio meddwl cadarnhaol e.e. hypnotherapi, myfyrdod
- **Synhwraidd** - therapïau sy'n gweithio gyda'r synhwyrâu e.e. aromatherapi, therapi lliw, therapi blodau Bach
- **Systemau meddygol** - therapïau sy'n defnyddio meddyginiaethau anhraddodiadol e.e. Meddygaeth Tsieineaidd draddodiadol, homeopathi
- **Diagnostig** - er enghraifft, iridoleg

11.3 Cwrdd ag anghenion unigolion

Mae angen i ymgeiswyr ddeall sut y gellir defnyddio therapïau cyflenwol i gwrdd ag anghenion unigolion sydd efallai â chyflyrau corfforol, emosiynol a/neu gymdeithasol gan gynnwys:-

- Poen llym
- Cyflyrau cronig e.e. asthma, pennau tost (cur pen), poen cefn, poen nerfol / cyhyrol, arthritis, sglerosis ymledol
- Anghenion emosiynol e.e. iselder, pryder, straen, pyliau o banig.
- Caethiwed e.e. ysmygu, alcohol, cyffuriau.
- Alergeddau e.e. problemau croen, crafu
- Anghenion emosiynol e.e. ffobiâu, cnoi ewinedd.
- Anhwylderau sy'n gysylltiedig â deiet.

11.4 Lleoliadau sy'n darparu therapïau cyflenwol

Mae angen i ymgeiswyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o:-

- Sut mae modd cael gafael ar therapïau cyflenwol - meddyginiaeth dros y cownter, ymarferwyr preifat, GIG, ymarferwyr integredig.
- Y gwahanol leoliadau sy'n cynnig therapïau cyflenwol - canolfannau hamdden, clinigau, sba iechyd, hosbisau, gweithle, canolfannau iechyd, gwasanaeth cleifion allanol mewn ysbyty, ysgolion i blant ag anableddau, sefydliadau gwirfoddol, yn y cartref neu gartref y therapydd.
- Argaeledd therapïau cyflenwol yn lleol.
- Cost gymharol therapïau cyflenwol

11.5 Rôl ymarferwyr sy'n ymwneud â darparu therapïau cyflenwol

Bydd angen i ymgeiswyr archwilio:-

- Math a hyd yr hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr a'r cymwysterau sy'n angenrheidiol i ymarfer.
- Rheoliadau statudol yn ymwneud â CAMau a'r defnydd o NOS (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol) wrth ddarparu gwasanaethau.
- Rôl cyrff proffesiynol cenedlaethol sydd yn ymwneud â darparu Meddygaeth Gyflenwol ac Amgen (MGA) (CAM) e.e. GCC (Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol) a'r HPC (Cyngor Galwedigaethau Iechyd)
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch perthynol i MGA.

11.6 Tueddiadau a safbwyntiau cyfredol sy'n gysylltiedig â defnyddio therapïau cyflenwol

Bydd angen i ymgeiswyr archwilio tueddiadau a safbwyntiau ar ddefnyddio therapïau cyflenwol i gynnwys:-

- Delwedd ystrydebol o ddefnyddio therapïau cyflenwol.
- Barn gyhoeddus a meddygol gyfredol
- Agweddau dadleuol ar ddefnyddio therapïau cyflenwol.
- Rôl therapïau cyflenwol ochr yn ochr â thriniaethau confensiynol.

Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig ar astudiaeth o ddau therapi cyflenwol ac ymchwilio i sut maent yn bodloni anghenion dau unigolyn â gwahanol anghenion. Bydd ymchwil hefyd yn cwmpasu barn gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd.

Rhagarweiniad

- Nodau ac amcanion
- Pwrpas ac amrediad therapiau cyflenwol
- Y lleoliadau

Prif gorff yr adroddiad

- Dewis unigolion - eu hanghenion corfforol, emosiynol a/neu gymdeithasol
- Y driniaeth therapi a dderbyniwyd a'r dylanwad ar ddull o fyw, credoau iechyd ac agweddau'r unigolion
- Rolau swydd yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan - eu hyfforddiant, gofynion iechyd a diogelwch, cyrff rheoleiddio a gofynion
- Barn a safbwyntiau unigolion sydd angen triniaeth arnynt, y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol
- Dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd

Gwerthuso

- Llwyddo i gwrdd â'r nodau ac amcanion
- Asesu a Gwerthuso therapiau cyflenwol gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau - unigolion sy'n derbyn triniaeth, yr hunan, y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol
- Awgrymiadau am welliannau a datblygiad posibl

Uned 11: Rôl Therapiau Cyflenwol mewn Gofal am Unigolion

Tystiolaeth asesu:

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig ar astudiaeth o **ddau** unigolyn sy'n defnyddio **dau therapi** cyflenwol gwahanol i gwrdd â gwahanol anghenion. Dylai'r dystiolaeth gynnwys:

- | | |
|------------|--|
| AA1 | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad, defnydd a phwrpas therapiau cyflenwol a'r lleoliadau sy'n eu cynnig. |
| AA2 | Manylion a gwybodaeth am yr unigolion a ddewiswyd sy'n dangos dealltwriaeth o addasrwydd a'r defnydd o ddau therapi cyflenwol gwahanol wrth gwrdd â'u gwahanol anghenion, gan gynnwys gwybodaeth am rolau'r ymarferwyr sy'n cymryd rhan. |
| AA3 | Ymchwil a dadansoddi perthnasol i bennu safbwyntiau a barn gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol am ddefnyddio therapiau cyflenwol. |
| AA4 | Gwerthuso pa mor dda mae'r therapiau cyflenwol wedi gweithio ochr yn ochr â thriniaethau confensiynol ac eraill wrth gwrdd ag anghenion yr unigolion a ddewiswyd. |

Asesu Amcan	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA1</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi gwahanol fathau o therapi cyflenwol. • Nodi rhai o'r lleoliadau lle mae therapïau cyflenwol ar gael. <p>Bydd gan y dystiolaeth ar y lefel hon amrywiaeth eang o fylchau ac anghywirdebau. Ni ddefnyddir geirfa dechnegol.</p> <p>(0 - 3 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad sylfaenol o'r gwahaniaeth rhwng therapïau confensiynol, cyflenwol ac amgen a sut maent wedi datblygu. • Disgrifio'n gryno rôl therapïau cyflenwol ochr yn ochr â thriniaethau confensiynol. • Disgrifio defnydd a diben rhai therapïau cyflenwol (gan gynnwys y rhai a ddefnyddir gan yr unigolion), a nodi rhai o'r lleoliadau lle maent ar gael. <p>Gall fod gan dystiolaeth ar y lefel hon rai bylchau ac anghywirdebau, gyda chyfuno cyfyngedig o wybodaeth a gasglwyd. Ychydig eirfa dechnegol a ddefnyddir.</p> <p>(4 - 7 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad manwl o'r gwahaniaeth rhwng therapïau confensiynol, cyflenwol ac amgen a sut maent wedi datblygu. • Disgrifio rôl therapïau cyflenwol ochr yn ochr â thriniaethau confensiynol. • Disgrifio defnydd ac esbonio pwrpas amrediad o therapïau cyflenwol (gan gynnwys y rhai a ddefnyddir gan yr unigolion) a disgrifio amrywiaeth dda o leoliadau lle maent ar gael. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn dangos mwy o ddealltwriaeth a chywirdeb, gyda pheth tystiolaeth o wybodaeth a gasglwyd, gan amlinellu'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn therapïau. Defnyddir geirfa dechnegol gydag ychydig anghywirdebau.</p> <p>(8 - 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi disgrifiad manwl ond cryno o'r gwahaniaeth rhwng therapïau confensiynol, cyflenwol ac amgen a sut maent wedi datblygu. • Disgrifio'n fwy manwl rôl therapïau cyflenwol wrth ochr triniaethau confensiynol. • Disgrifio defnydd ac esbonio pwrpas amrediad o therapïau cyflenwol yn llawn (gan gynnwys y rhai a ddefnyddir gan yr unigolion) a rhoi amrywiaeth dda o leoliadau lle maent ar gael. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth a chywirdeb, gyda thystiolaeth o gyfuno effeithiol o wybodaeth wedi'i chasglu, gan ddisgrifio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn therapïau a'u hagweddau canlynol. Bydd geirfa dechnegol yn gywir, heb wybodaeth amherthnasol.</p> <p>(12 - 15 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA2</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi anghenion corfforol yr unigolion. • Amlinellu'r rhesymau pam mai'r therapiâu a ddewiswyd yn unig sydd yn addas i'r unigolion. • Cynnig amlinelliad o rolau dau ymarferwr. <p>Bydd y dystiolaeth yn brin o ystyr a manylion. Dim defnydd o eirfa arbenigol ac yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod ac yn disgrifio'n gryno anghenion dau unigolyn, er efallai bod y dystiolaeth yn canolbwyntio ar anghenion corfforol gydag ychydig ystyriaeth o anghenion emosiynol/ cymdeithasol. • Cynnig esboniad sylfaenol o pam mae pob therapi'n addas i bob un o'r unigolion, gan ddangos peth cysylltiadau â dull o fyw, credoau ac agweddau'r ddau unigolyn. • Rhoi disgrifiad sylfaenol o rolau gwaith yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y cymwysterau / hyfforddiant angenrheidiol, gofynion iechyd a diogelwch, rhinweddau arbennig a gofynion rheoleiddio. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion, gydag ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol a rhai anghywirdebau.</p> <p>(6 - 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod a disgrifio'n fanwl anghenion dau unigolyn, gan gynnwys eu hanghenion corfforol, emosiynol a chymdeithasol. • Cynnig esboniad mwy manwl o pam mae pob therapi'n addas i'r unigolion, gan ddisgrifio sut mae eu dull o fyw, eu credoau a'u hagweddau wedi dylanwadu ar eu dewis o therapi. • Rhoi disgrifiad manwl o rolau gwaith yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y cymwysterau / hyfforddiant angenrheidiol, gofynion iechyd a diogelwch, rhinweddau arbennig a gofynion rheoleiddio, gan esbonio sut mae rheoleiddiad wedi/ sut gallai fod wedi cael effaith ar y therapiâu a ddefnyddir. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr yn glir, yn berthnasol ar y cyfan ac yn defnyddio geirfa arbenigol gydag ychydig anghywirdebau.</p> <p>(12 - 18 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dangos eu dealltwriaeth o anghenion cyffwrddol y ddau unigolyn gan ystyried eu hanghenion corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. • Cynnig esboniad trylwyr o pam mae pob therapi'n addas i'r unigolion, gan ddadansoddi sut mae eu dull o fyw, eu credoau a'u hagweddau wedi dylanwadu ar eu dewis o therapi. • Rhoi disgrifiad manwl o rolau gwaith yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y cymwysterau / hyfforddiant angenrheidiol, rhinweddau arbennig, gofynion iechyd a diogelwch, gan esbonio sut mae rheoleiddiad wedi/ sut gallai fod wedi cael effaith ar y therapiâu a ddefnyddir. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr yn glir, heb wybodaeth amherthnasol ac yn defnyddio geirfa arbenigol yn gywir.</p> <p>(19 - 25 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA3</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno tystiolaeth gyfyngedig o farn y cyhoedd tuag at therapïau cyflenwol. • Cyflwyno tystiolaeth gyfyngedig o farn gweithwyr proffesiynol tuag at therapïau cyflenwol. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn brin o ystyr a manylion. Dim defnydd o eirfa arbenigol ac yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd ag ymchwil gynradd, gan ddefnyddio sampl addas i bennu barn a safbwyntiau'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd ychydig neu ddim esboniad am y sampl a ddefnyddiwyd na pha mor ddilys, tueddol neu ddibynadwy yw'r ymchwil. • Darparu tystiolaeth, gan ddefnyddio amrediad cyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth, i bennu barn a safbwyntiau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am ddefnyddio therapïau cyflenwol. • Ceisio dadansoddi'r canlyniadau i lunio rhai cymariaethau ym marn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(7 - 14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd ag ymchwil gynradd, gan ddefnyddio sampl addas i bennu barn a safbwyntiau'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd peth cyfiawnhad o'r sampl a ddefnyddiwyd ac esboniad sylfaenol o ba mor ddilys, tueddol neu ddibynadwy yw'r ymchwil. • Darparu tystiolaeth, gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau gwybodaeth, i bennu barn a safbwyntiau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am ddefnyddio therapïau cyflenwol. • Dadansoddi'r canlyniadau i lunio cymariaethau rhwng barn a safbwyntiau'r cyhoedd yn gyffredinol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a hefyd rhwng gwahanol aelodau o'r cyhoedd e.e. gwryw/benyw, grwpiau oed, statws cymdeithasol. Efallai y gwneir cymariaethau rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ôl rhyw, oed a galwedigaeth. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd ag ymchwil gynradd, gan ddefnyddio sampl addas, i bennu barn a safbwyntiau'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd cyfiawnhad o'r sampl a ddefnyddiwyd a manteision / anfanteision y dulliau samplu a roddwyd. Bydd esboniad o ba mor ddilys, tueddol neu ddibynadwy yw'r ymchwil gydag awgrymiadau am welliannau / meysydd ymchwil pellach. • Darparu tystiolaeth, gan ddefnyddio amrediad eang o ffynonellau gwybodaeth, i bennu barn a safbwyntiau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am ddefnyddio therapïau cyflenwol. • Dadansoddi'r canlyniadau'n drylwyr i lunio cymariaethau rhwng barn a safbwyntiau'r cyhoedd yn gyffredinol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a hefyd rhwng gwahanol aelodau o'r cyhoedd e.e. gwryw/benyw, grwpiau oed, statws cymdeithasol. Efallai y gwneir cymariaethau rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ôl rhyw, oed a galwedigaeth. Dylai canlyniadau hefyd gael eu cymharu â'r farn ystrydebol am therapïau cyflenwol. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA4</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau'r astudiaeth. • Trafod sut mae'r therapïau cyflenwol wedi cwrdd ag anghenion y ddau unigolyn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn brin o ystyr a manylion. Dim defnydd o eirfa arbenigol ac yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau a gwendidau'r dystiolaeth. • Llunio gwerthusiad, wedi'i seilio'n bennaf ar farn y ddau unigolyn a astudiwyd, o ba mor dda mae'r therapi cyflenwol a'r triniaethau confensiynol a ddefnyddiwyd wedi cwrdd â'u hanghenion. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(7 -14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau a gwendidau'r dystiolaeth. • Darparu gwerthusiad sy'n ystyried dull o fyw, credoau ac agweddau dau unigolyn, o ba mor dda mae'r therapi cyflenwol a'r triniaethau confensiynol a ddefnyddiwyd wedi cwrdd â'u hanghenion. • Gwerthuso sut mae profiadau'r unigolyn yn cymharu â phrofiad aelodau eraill o'r cyhoedd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau a gwendidau'r dystiolaeth. • Darparu gwerthusiad sy'n ystyried dull o fyw, credoau ac agweddau'r ddau unigolyn, o ba mor dda mae'r therapi cyflenwol a'r triniaethau confensiynol a ddefnyddiwyd wedi cwrdd â'u hanghenion corfforol, emosiynol a chymdeithasol. • Gwerthuso sut mae profiadau'r unigolyn yn cymharu â phrofiad aelodau eraill o'r cyhoedd • Ystyried barn yr unigolion, y cyhoedd yn gyffredinol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i werthuso i ba raddau y gallai therapïau cyflenwol weithio gyda thriniaethau confensiynol neu gymryd eu lle. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

Uned 12: Dylanwadau Bwyd a Ffitrwydd ar Iechyd a Lles

Rhagarweiniad

Mae'r uned U2 hon yn uned opsiynol a chaiff ei hasesu'n fewnol

Nod yr uned yw cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrediad y wahanol agweddau'n ymwneud â deiet a ffitrwydd unigolion ar wahanol gamau bywyd.

Mae'r uned hon yn cynnwys:

- Y prif faetholion mewn bwyd - eu ffynhonnell a'u swyddogaeth.
- Effeithiau cadarnhaol gweithgaredd corfforol ar iechyd corfforol, seicolegol / meddwl a chymdeithasol unigolion.
- Canllawiau gweithgaredd corfforol a deietegol cyfredol a luniwyd i hybu iechyd y genedl.
- Rôl deiet iach a gweithgaredd corfforol cyson ar atal / rheoli rhai clefydau.
- Cynllunio deietau addas a rhaglenni gweithgaredd corfforol i unigolion.

Cynnwys

12.1 Y prif faetholion mewn bwyd – eu ffynhonnell a swyddogaeth

Mae angen i ymgeiswyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r prif faetholion mewn bwyd a'u ffynonellau a swyddogaeth ddeietegol:

- Macro-faetholion
 - Proteinau - gwerth biolegol uchel ac isel
 - Brasterau - dirlawn, monoddirlawn ac amlannirlawn
 - Carbohydradau - startsys a siwgrau
- Micro-faetholion
 - Fitaminau - hydawdd mewn dŵr B ac C, hydawdd mewn braster A, D, E, a K
 - Mwynau - calsiwm, haearn, sodiwm, potasiwm a ffosfforws

Bydd angen i ymgeiswyr hefyd ystyried pwysigrwydd cymeriant dŵr a hylif a pholysacharid di-starts (NSP / ffibr deietegol).

12.2 Effeithiau cadarnhaol gweithgaredd corfforol cyson ar iechyd seicolegol / meddwl a chymdeithasol unigolion

Bydd angen i ymgeiswyr gael dealltwriaeth o'r gwelliannau y gall gweithgaredd corfforol cyson ac ymarfer eu gwneud i'r canlynol:

- Iechyd Corfforol - e.e. ffitrwydd, cryfder cyhyrol, hyblygrwydd, rheoli pwysau, clefyd coronaidd y galon, atal diffyg traul, crychguriadau a dolur a phoen cyhyrol, pwysedd gwaed uchel, osteoporosis ac ymladd heneiddio trwy gynnal effeithiolrwydd system y corff.
- Iechyd Meddwl/Seicolegol - e.e. yn gwella bywiogrwydd meddwl, cymhelliad a diddordeb mewn bywyd, ymdeimlad o les, rhyddhad o straen, yn gostwng lefelau pryder, yn gwella cyfnod canolbwyntio a phatrymau cwsg, yn codi hunan-barch, yn datblygu hunanhyder, 'ffactor teimlo'n dda'.
- Iechyd Cymdeithasol - e.e. rhwydwaith cyfeillgarwch i'w rannu ac i gefnogi, mae ymarfer mewn grwpiau'n cyfrannu at les cymdeithasol unigolion, yn osgoi teimladau o unigrwydd.

12.3 Canllawiau gweithgaredd corfforol a deietegol cyfredol a gychwynwyd i hybu iechyd unigolion

Bydd angen i ymgeiswyr wybod y canllawiau gweithgaredd corfforol a deietegol cyfredol a gyhoeddir gan amrywiol asiantaethau. Caiff Canllawiau cyfredol y Deyrnas Unedig eu nodi yn *'Saving Lives': Our Healthier Nation 1999* fodd bynnag mae nifer o asiantaethau eraill yn ymwneud â hybu iechyd unigolion. Yn eu plith mae:

- Gweithgaredd Corfforol: Adran Iechyd: Dewis gweithgaredd: cynllun gweithredu gweithgaredd corfforol (2005), Asesiad Anghenion Iechyd 2006: Gweithgaredd Corfforol (Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru). Think Fit! / Be Active! (BHF), "A European framework to promote Physical Activity for health" (WHO 2007)
- Canllawiau Deietegol - Adran Iechyd: Choosing Health: making healthy choices easier (2005). Yr Arolwg Bwyd Cenedlaethol Yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chynlluniau fel Cynllun Pump y Dydd, cynllun Atal Halen, Arlwygo Iach, Bwyta'n dda, bod yn dda a Cydbwysedd Bwyd Da. Bwyd a Lles - Strategaeth Maeth i Gymru a Lles yng Nghymru, Cyngor Gwybodaeth Bwyd Ewropeaidd a'r WHO.
- Mentrau 'Her Iechyd'.

12.4 Rôl deiet iach a gweithgaredd corfforol rheolaidd ar atal/rheoli rhai clefydau

Dylai fod gan ymgeiswyr wybodaeth am effeithiau llesol deiet iach a gweithgaredd corfforol cyson ar glefydau ac anhwylderau. Dylai hyn ymdrin â:

- Clefyd cardiofasgwlar
- Strôc
- Diabetes
- Gordewdra a gorbwysau
- Iechyd cyhyrol-sgerbydol - Osteoporosis
- Gorbwysedd
- Cancr - cancr y colon a'r fron wedi diwedd y mislif, colorefrol, a'r ysgyfaint
- Pydredd Dannedd
- Clefydau diffyg - anaemia
- Syndrom Coluddyn Llidus

12.5 Cynllunio deietau addas a rhaglenni gweithgaredd corfforol i unigolion

Dylai ymgeiswyr ddeall wrth gynllunio deiet a rhaglen gweithgaredd corfforol ei bod yn bwysig ystyried sawl ffactor i sicrhau gweithrediad y rhaglen yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys:

- Asesu deiet yr unigolyn cyn cychwyn y rhaglen trwy ddefnyddio tablau maetheg neu feddalwedd dadansoddi deietegol i ddadansoddi'n gryno gynnwys maeth deiet unigolion a chymharu eu cymeriant â'r lwfansau dyddiol a argymhellir.
- Asesu lefel ffitrwydd yr unigolyn cyn cychwyn y rhaglen trwy ddefnyddio profion safonol a siartiau taldra/pwysau.
- Ystyried ffactorau diogelwch wrth gynllunio'r rhaglenni. Yn y rhaglen gweithgaredd corfforol dylid ystyried y ffactorau canlynol - amgylchedd diogel, tywydd drwg, dillad addas, esgidiau ac offer, paratoi cywir - cynhesu ac oeri. Yn y rhaglen ddeiet dylid ystyried y ffactorau canlynol - iechyd cyffredinol yr unigolyn, anghenion cysylltiedig ag oed, egwyddorion addasu deiet, argaeledd a hygyrchedd amrywiaeth o fwydydd,
- Amser sydd ar gael a dewisiadau dull o fyw'r unigolion.
- Addasrwydd rhaglenni i'r pwrpas a fwriadwyd - nod y rhaglenni - e.e. colli pwysau, tonio, gostwng tyndra, cynyddu lefelau ffitrwydd
- Yr unigolion yn derbyn y rhaglen.
- Dulliau monitro priodol:
 - System cylchrediad gwaed - pwls, pwysedd gwaed (monitor digidol)
 - System resbiradu - cyfradd anadlu, anterth llif
 - System nerfol - tymheredd
 - Swyddogaethau'r corff - profi ffitrwydd, siartiau taldra/pwysau a mesuriadau BMI (Indecs Mâs y Corff).
- Gwerthuso ar ôl y cyfnod amser penodol - i gynnwys myfyrio ar y rhaglenni a dadansoddi canlyniadau cyn y rhaglen ac ar ôl y rhaglen. Dylid adnabod effeithiau tymor hir a byr y rhaglenni gydag awgrymiadau ar gyfer newid a gwella.

Asesu

Bydd angen i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig sy'n archwilio canlyniadau deiet a rhaglen gweithgareddau corfforol a gynlluniwyd yn arbennig ar ddau unigolyn am isafswm o bedair wythnos. Caiff yr adroddiad ei seilio ar ymchwil gynradd ac eilaidd a dylai'r unigolion fod ar wahanol gamau bywyd. Bydd unigolion yn dilyn deiet wedi'i gynllunio'n benodol a rhaglen gweithgaredd corfforol ond bydd un unigolyn yn cael rhaglen sy'n canolbwyntio ar angen deietegol tra bydd ar unigolyn arall angen gweithgaredd/ffitrwydd corfforol.

Mae angen i'r adroddiad gynnwys:

- Rhagarweiniad cyffredinol yn amlinellu manylion am yr unigolion. Nodau ac amcanion yr ymchwiliad a dulliau ymchwil - cynradd ac eilaidd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth am ofynion deiet iach ac amlinelliad o'r canllawiau cyffredol ar ddeiet a gweithgaredd corfforol.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth am fanteision posibl ymarfer - effeithiau ar iechyd corfforol unigolyn; effeithiau ar iechyd meddwl/seicolegol unigolyn; yn cynorthwyo iechyd cymdeithasol unigolyn.
- Manylion a gwybodaeth am yr unigolion a ddewiswyd ganddynt trwy asesu eu dewisiadau dull o fyw, anghenion gweithgareddau corfforol ac ystyried eu canlyniadau iechyd posibl yn y dyfodol.
- Ymchwil a dadansoddi perthnasol wrth gynllunio, dylunio, cynnal a monitro'r gwahanol raglenni ar gyfer yr unigolion a ddewiswyd. Dylid ystyried ffactorau diogelwch yn ystod y cam hwn.
- Dylai'r rhaglenni gynnwys:
 1. Nodau ac amcanion
 2. Disgrifiad o'r gweithgareddau corfforol a'r addasiadau deiet i'w gwneud.
 3. Ffactorau diogelwch perthnasol.
 4. Cyfnod amser penodedig am y rhaglenni.
 5. Dulliau monitro.
- Gwerthuso llwyddiant ac effeithiolrwydd y rhaglenni deiet a gweithgaredd corfforol wrth gwrdd ag anghenion yr unigolion. Llunio barn am effeithiau posibl tymor byr a thymor hir y rhaglenni ar y ddau unigolyn. Awgrymu gwelliannau posibl i'r ddwy raglen a dylai ymgeiswyr werthuso'u perfformiad eu hunain.

Meini Prawf Asesu:

Uned 12: Dylanwadau Bwyd a Ffitrwydd ar Iechyd a Lles

Tystiolaeth asesu:

Bydd angen i ymgeiswyr gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig sy'n archwilio canlyniadau dwy raglen sy'n canolbwyntio ar ddeiet a ffitrwydd dau unigolyn ar wahanol gamau bywyd am isafswm o bedair wythnos.

- | | |
|-----|--|
| AA1 | Gwybodaeth a dealltwriaeth o faetholion a gofynion deiet iach, ymarfer a'i fanteision posibl. |
| AA2 | Llunio proffil o ddau unigolyn - eu dull o fyw, deiet, lefel ffitrwydd, anhwylderau a chlefydau. |
| AA3 | Cynllunio, dylunio, cynnal a monitro rhaglenni iechyd a ffitrwydd i ddau unigolyn ar wahanol gamau bywyd. |
| AA4 | Gwerthuso llwyddiant y rhaglenni wrth gwrdd ag anghenion unigolion. Effeithiau tymor byr a hir y rhaglenni ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Hunanwerthuso - yn ymwneud ag effeithiolrwydd wrth gynnal y rhaglenni. |

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA1</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod gofynion deiet iach. • Nodi pwysigrwydd ymarfer i unigolyn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn brin o ystyr a manylion. Dim defnydd o eirfa arbenigol ac yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 3 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod ac yn disgrifio'n gryno ofynion deiet iach. • Cynnig esboniad sylfaenol ar effeithiau ymarfer ar unigolyn. • Amlinellu gofynion o leiaf ddau ganllaw cyfredol ar ddeiet a gweithgaredd corfforol. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(4 -7 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi esboniad manwl o ofynion deiet iach a'i swyddogaeth o fewn y corff. • Cynnig esboniad manwl o effeithiau ymarfer ar iechyd corfforol a seicolegol unigolyn. • Disgrifio'n fanwl amrediad o ganllawiau cyfredol a gynlluniwyd i hybu deiet iach ac i annog gweithgaredd corfforol. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Cymharol fach yw nifer y gwallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(8 - 11 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi esboniad trylwyr o ofynion deiet iach gan ddangos dealltwriaeth o'i swyddogaeth. • Cynnig esboniad cyflawn a manwl sy'n dangos dealltwriaeth o effeithiau corfforol a seicolegol ymarfer ar iechyd unigolyn. • Rhoi disgrifiad manwl a chyflawn o ganllawiau cyfredol a gynlluniwyd i hybu deiet iach a phriodol a gweithgaredd corfforol wedi'i gynllunio. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(12 - 15 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA2</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig peth tystiolaeth o ddull o fyw, iechyd a deiet dau unigolyn. • Cofnodi'r math o ymarfer a wneir gan yr unigolion hyn. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn brin o ystyr a manylion. Dim defnydd o eirfa arbenigol ac yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 5 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig gwybodaeth o ddwy ffynhonnell o leiaf, ar brofi a mesur gweithgareddau'n ymwneud â deiet ac ymarfer. • Amlinellu proffiliau dau unigolyn gan gyfeirio at eu dull o fyw, iechyd, deiet ac ymarfer. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(6 -11 marc)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr ymgeisydd yn: • Cynnig gwybodaeth fanwl o wahanol ffynonellau, ar brofi a mesur gweithgareddau'n ymwneud â dull o fyw, deiet ac ymarfer. • Llunio proffil o ddau unigolyn yn cefnogi eu dull o fyw, deiet, lefel ffitrwydd, anhwylderau a chlefydau. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Cymharol fach yw nifer y gwallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(12 -18 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig gwybodaeth fanwl a chyflawn o amrediad o ffynonellau ar brofi a mesur a dadansoddi gweithgareddau'n ymwneud â dull o fyw, deiet ac ymarfer. • Llunio proffil cywir o ddau unigolyn gyda chofnodion manwl am eu dull o fyw, deiet, lefel ffitrwydd, anhwylderau a chlefydau. <p>Tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(19 - 25 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA3</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod cryfderau a gwendidau lefel iechyd y ddau unigolyn. • Cyflwyno awgrymiadau ar sut gall yr unigolion wella eu deiet a'u hiechyd. • Cynnig peth tystiolaeth o gyflawni'r newidiadau i wella iechyd a ffitrwydd. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn brin o ystyr a manylion. Dim defnydd o eirfa arbenigol ac yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal asesiad syml o lefelau iechyd a ffitrwydd dau unigolyn. • Cynnig cynlluniau sylfaenol i wella deiet a gweithgaredd corfforol dau unigolyn. • Cynnig tystiolaeth am gynnal rhaglenni iechyd a ffitrwydd syml i ddau unigolyn. • Ceisio dadansoddi'r canlyniadau. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(7 - 14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig asesiad o lefelau iechyd a ffitrwydd dau unigolyn gan ddefnyddio profion ffitrwydd safonol. • Dylunio rhaglenni priodol a realistig i wella iechyd a ffitrwydd dau unigolyn. • Cynnig tystiolaeth am weithredu a monitro'r rhaglenni, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau. • Dadansoddi'r canlyniadau. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Ychydig o wallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig asesiad manwl o lefelau iechyd a ffitrwydd dau unigolyn gan ddefnyddio amrediad o brofion ffitrwydd safonol. • Dylunio rhaglenni priodol a realistig ac wedi'u hamseru ar gyfer dau unigolyn sy'n ymwneud â gosod targedau a gwella eu hiechyd a'u ffitrwydd. • Cynnig tystiolaeth am weithredu a monitro'r rhaglenni'n fanwl, gan ddefnyddio amrediad o dechnegau. • Dadansoddi'r canlyniadau a chyfeirio at gyfyngiadau'r rhaglenni. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

Amcan Aseu	Lefel Cyrhaeddiad 1	Lefel Cyrhaeddiad 2	Lefel Cyrhaeddiad 3	Lefel Cyrhaeddiad 4
<p>AA4</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi sut yr ymatebodd yr unigolion i'r newidiadau mewn deiet ac ymarfer. • Amlinellu sut gallai'r unigolion elwa o'r newidiadau. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon yn brin o ystyr a manylion. Dim defnydd o eirfa arbenigol ac yn cynnwys anghywirdebau.</p> <p>(0 - 6 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso peth tystiolaeth i aseu pa mor dda y bu i'r rhaglenni gwrdd ag anghenion yr unigolion. • Gwerthuso eu perfformiadau eu hunain wrth gynnal y rhaglenni. Gwneud awgrym ar gyfer gwella. <p>Bydd tystiolaeth yn cyfleu ystyr ond yn brin o fanylion. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol. Gall y gwaith gynnwys anghywirdebau.</p> <p>(7-14 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso tystiolaeth a enillwyd i aseu pa mor dda y bu i'r rhaglenni gwrdd ag anghenion yr unigolion ac esbonio'r manteision tymor byr a hir. • Cynnig gwerthusiad manwl o'u heffeithiolrwydd personol wrth weithredu'r rhaglenni. Gwneud awgrymiadau realistig ar gyfer gwelliant. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n glir i gyfleu ystyr. Defnyddir geirfa dechnegol yn gywir. Cymharol fach yw nifer y gwallau a geir yn y gwaith.</p> <p>(15 - 22 marc)</p>	<p>Bydd yr ymgeisydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso amrediad o dystiolaeth a enillwyd i aseu llwyddiant y ddwy raglen wrth gwrdd ag anghenion yr unigolion a chynnig esboniad manwl o effeithiau tymor byr a hir y rhaglenni. • Cynhyrchu gwerthusiad manwl ac un wedi'i strwythuro'n dda o'u heffeithiolrwydd personol wrth weithredu'r rhaglenni. Gwneud awgrymiadau realistig ar gyfer gwelliant. <p>Bydd tystiolaeth ar y lefel hon wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei mynegi'n glir. Caiff termau arbenigol eu defnyddio'n rhwydd ac yn gywir. Bydd y gwaith yn rhydd o wallau ar y cyfan.</p> <p>(23 - 30 marc)</p>

5

CYNLLUN ASESU

Rhoddir manylion y trefniadau asesu am bob uned yn yr adran gynnwys.

Asesiad Synoptig

Mae asesiad synoptig, sy'n profi dealltwriaeth ymgeiswyr o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau'r pwnc a'u dealltwriaeth gyfannol o'r pwnc, yn ofynnol ym mhob manyleb safon Uwch. Yng nghyd-destun Iechyd a Gofal Cymdeithasol golyga hyn:

Gofyn i ymgeiswyr wneud cysylltiadau a'u defnyddio o fewn a rhwng unedau UG ac A2 trwy; cymhwyso gwybodaeth a sgiliau mewn cyd-destunau cysylltiedig â gwaith.

Ystyrir bod gwaith cwrs yn gynhenid synoptig oherwydd ei fod yn dod â gwybodaeth ynghyd i'w chymhwyso yn y gweithgaredd neu ddarn o ymchwil a thrwy ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau.

Gall rhai cwestiynau synoptig ymgorffori cysyniadau a syniadau sydd wedi eu cynllunio i fod yn heriol i ymgeiswyr. Gall cwestiynau o'r fath roi credyd am welediad uwch a gwerthfawrogiad o gydberthynas gwahanol agweddau ar y pwnc a chreadigrwydd meddwl. Mae atebion o'r fath yn debygol o ymwneud ag ymateb i ddata a chwestiynau sy'n gofyn am atebion estynedig.

Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos eu hyfedredd mewn cyfathrebu ysgrifenedig mewn unedau asesu yn UG ac U2 lle mae disgwyl iddynt gynhyrchu deunydd ysgrifenedig estynedig.

Caiff ysgrifennu estynedig ac ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig eu hasesu'n bennaf trwy amcanion asesu 3 a 4.

Caiff cynlluniau marcio a gridiau asesu, lle y bo'n briodol, eu llunio i ganiatáu ar gyfer cyflwyno adroddiad cydlynus, dadl gadarn, fformat priodol, defnyddio terminoleg alwedigaethol benodol ac eglurder.

Dyfarnu, Adrodd ac Ailsefyll

Caiff cymhwyster UG Gradd Unigol ei adrodd ar raddfa pum pwynt; A, B, C, D, ac E.

Caiff cymhwyster Safon Uwch Gradd Unigol ei adrodd ar raddfa chwe gradd A*, A, B, C, D, ac E.

Caiff cymhwyster UG Dwyradd ei adrodd ar raddfa naw gradd, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE.

Caiff y cymhwyster Safon Uwch Dwyradd ei adrodd ar raddfa un radd ar ddeg; A*A*, A*A, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE.

Caiff ymgeiswyr sy'n methu â chyrraedd y safon isaf am radd E eu cofnodi fel U (annosbarthedig), ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Caiff canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc terfynol eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa gyffredin i holl gymwysterau TAG. Caiff cywerthedd y radd ei adrodd fel llythyren fach ((a) i (e)) ar slipiau canlyniadau, ond nid ar dystysgrifau:

Gradd Uned	a	b	c	d	e
GMU (Mwyafswm 100)	100-80	79-70	69-60	59-50	49-40

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol a 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr unedau cyn yr ardystio ar gyfer y cymhwyster, a'r canlyniad gorau a ddefnyddir ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Bydd oes y canlyniadau uned unigol, cyn ardystio'r cymhwyster, ond yn cael ei chyfyngu gan oes y fanyleb ei hun.

Caiff marciau unffurf a ddyfernir am bob uned eu cronni a'u cymharu â ffiniau a bennwyd eisoes.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau terfynol fel a ganlyn:-

UG Gradd Unigol

Gradd Gyffredinol	A	B	C	D	E
GMU (200)	200-160	159-140	139-120	119-100	99-80

UG Dwyradd

Gradd Gyffredinol	AA	AB	BB	BC	CC	CD	DD	DE	EE
GMU (400)	400-320	319-300	299-280	279-260	259-240	239-220	219-200	199-180	179-160

Safon Uwch Gradd Unigol

Gradd Gyffredinol	A	B	C	D	E
GMU (400)	400-320	319-280	279-240	239-200	199-160

Safon Uwch Dwyradd

Gradd Gyffredinol	AA	AB	BB	BC	CC	CD	DD	DE	EE
GMU (800)	800-640	639-600	599-560	559-520	519-480	479-440	439-400	399-360	359-320

6

SGILIAU ALLWEDDOL

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer UG a Safon Uwch, a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefel 3:

- Cyfathrebu
- Datrys Problemau
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' sydd ar gael ar wefan CBAC.

7

DISGRIFIADAU PERFFORMIAD

Mae'r disgrifiadau perfformiad am UG ac U2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi lefel cyrhaeddiad sy'n nodweddiadol o ymgeiswyr ar ffin A/B ac E/U. Dylent gael eu dehongli mewn perthynas â'r cynnwys a amlinellwyd yn y fanyleb; ni chawsant eu cynllunio i ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Maent yn rhoi arwydd cyffredinol o ganlyniadau dysgu a lefelau cyrhaeddiad sy'n debygol o gael eu dangos gan ymgeisydd cynrychioliadol sy'n perfformio ar bob ffin. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos proffiliau anghyson ar draws y cyraeddiadau a restrir, gyda chryfderau mewn rhai meysydd yn gwneud iawn yn y broses ddyfarnu am wendid neu fylchau mewn man arall.

Bodlonir y gofyniad bod pob manyleb UG a safon Uwch yn asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig ymgeiswyr trwy'r cyfan o'r pedwar amcan asesu.

7.1 Disgrifiadau Perfformiad UG

UG	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3	Amcan Asesu 4	Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig
Amcan Asesu	Mae ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol.	Mae ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.	Mae ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i gael gwybodaeth o amrediad o ffynonellau. Maent yn dadansoddi materion a phroblemau cysylltiedig â gwaith.	Mae ymgeiswyr yn gwerthuso tystiolaeth, yn llunio barn resymegol ac yn llunio casgliadau dilys am faterion cysylltiedig â gwaith.	
Disgrifiad perfformiad ffin A/B	Mae ymgeiswyr yn dangos: <ol style="list-style-type: none"> a. gyda rhai bylchau, wybodaeth o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol b. dealltwriaeth ddofn o symddogaethau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol c. amrediad o sgiliau cysylltiedig â gwaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd mewn dull effeithiol. 	Mae ymgeiswyr yn: <ol style="list-style-type: none"> a. cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn gywir ac yn annibynnol i amrediad o sefyllfaoedd cysylltiedig â gwaith yn ymwneud â gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth. 	Mae ymgeiswyr yn: <ol style="list-style-type: none"> a. ymgymryd ag ymchwil gan ddefnyddio amrediad o dechnegau b. defnyddio amrediad eang o wybodaeth berthnasol i ddadansoddi materion a phroblemau cysylltiedig â gwaith. 	Mae ymgeiswyr yn: <ol style="list-style-type: none"> a. gwerthuso tystiolaeth i lunio casgliadau dilys b. llunio barn resymegol am faterion perthnasol cysylltiedig â gwaith. 	Mae Ymgeiswyr yn: <ol style="list-style-type: none"> a. defnyddio mynegiant ysgrifenedig sy'n <ul style="list-style-type: none"> • cyfleu ystyr priodol • defnyddio geirfa arbenigol briodol.
Disgrifiad perfformiad ffin E/U	Mae ymgeiswyr yn dangos: <ol style="list-style-type: none"> a. gwybodaeth sylfaenol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol; gall fod bylchau sylweddol b. dealltwriaeth sylfaenol o bwrpasau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol c. dangos amrediad cyfyngedig o sgiliau cysylltiedig â gwaith. 	Mae ymgeiswyr yn: <ol style="list-style-type: none"> a. cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gydag arweiniad i grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a chyd-destunau cyfarwydd cysylltiedig â gwaith. 	Mae ymgeiswyr yn: <ol style="list-style-type: none"> a. casglu gwybodaeth ar faterion cysylltiedig â gwaith gan ddefnyddio technegau a roddwyd b. defnyddio amrediad cyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth perthnasol c. gwneud peth dadansoddi sylfaenol o faterion a phroblemau cysylltiedig â gwaith. 	Mae ymgeiswyr yn: <ol style="list-style-type: none"> a. gwerthuso tystiolaeth i lunio casgliadau sylfaenol am faterion cysylltiedig â gwaith 	Mae Ymgeiswyr yn: <ol style="list-style-type: none"> a. defnyddio mynegiant ysgrifenedig: <ul style="list-style-type: none"> • sy'n ddigonol i gyfleu ystyr • a fynegir efallai mewn modd anarbenigol.

7.2 Disgrifiadau Perfformiad U2

UG	Amcan Asesu 1	Amcan Asesu 2	Amcan Asesu 3	Amcan Asesu 4	Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig
Amcan Asesu	Mae ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol.	Mae ymgeiswyr yn cymhwysu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.	Mae ymgeiswyr yn defnyddio technegau ymchwil priodol i gael gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Maent yn dadansoddi materion a phroblemau cysylltiedig â gwaith.	Mae ymgeiswyr yn gwerthuso tystiolaeth, yn llunio barn resymegol ac yn llunio casgliadau dilys am faterion cysylltiedig â gwaith.	
Disgrifiad perfformiad ffin A/B	Mae ymgeiswyr yn: a. dangos gwybodaeth ddofn o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol b. dangos dealltwriaeth ddofn o swyddogaethau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol c. dangos amrediad o sgiliau cysylltiedig â gwaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd mewn dull effeithiol.	Mae ymgeiswyr yn: a. cymhwysu gwybodaeth ddofn, dealltwriaeth a sgiliau n gywir ac yn annibynnol i amrediad eang o sefyllfaoedd cysylltiedig â gwaith, gan gysylltu'r rhain fel y bo'n briodol â gwahanol gyd-destunau a grwpiau defnyddwyr gwasanaeth.	Mae ymgeiswyr yn: a. dewis a chyfiawnhau defnyddio technegau ymchwil a dadansoddi b. defnyddio amrediad eang o ffynonellau gwybodaeth perthnasol c. defnyddio'r technegau a'r wybodaeth a ddewiswyd i ddadansoddi materion a phroblemau cysylltiedig â gwaith.	Mae ymgeiswyr yn: a. gwerthuso amrediad o dystiolaeth i lunio ac i gyfiawnhau casgliadau dilys b. llunio barn wedi ei resymegu'n dda am faterion perthnasol cysylltiedig â gwaith.	Mae ymgeiswyr yn: a. defnyddio mynegiant ysgrifenedig sy'n • cyfleu ystyr priodol • defnyddio geirfa arbenigol briodol.
Disgrifiad perfformiad ffin E/U	Mae ymgeiswyr yn: a. dangos gwybodaeth sylfaenol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol b. dangos dealltwriaeth sylfaenol o bwrpasau'r sector iechyd gofal cymdeithasol; gall fod bylchau sylweddol c. dangos amrediad cyfyngedig o sgiliau cysylltiedig â gwaith.	Mae ymgeiswyr yn: a. cymhwysu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gydag arweiniad i grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a chyd-destunau cysylltiedig â gwaith.	Mae ymgeiswyr yn: a. gwneud ymchwil i faterion cysylltiedig â gwaith, gan ddefnyddio technegau a roddwyd b. defnyddio amrediad cyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth perthnasol c. defnyddio gwybodaeth a gasglwyd i wneud dadansoddiad syml o faterion a phroblemau cysylltiedig â gwaith	Mae ymgeiswyr yn: a. gwerthuso tystiolaeth i lunio casgliadau sylfaenol am faterion cysylltiedig â gwaith b. adnabod cryfderau a gwendidau'r dystiolaeth.	Mae ymgeiswyr yn: a. defnyddio mynegiant ysgrifenedig sy'n: • ddigonol i gyfleu ystyr • cael ei fynegi efallai mewn modd anarbenigol.

8

CANLLAWIAU ASESU MEWNOL

8.1 Rhagarweiniad

Bwriedir y cynlluniau asesu mewnol i annog ymgeiswyr i ddatblygu amrediad eang o ddulliau ymchwil ac i'w cyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dylent ymwneud â gweithgareddau ar draws pob agwedd o'r fanyleb, sy'n benthyg eu hunain i hyn mewn ysgol/coleg neu sefyllfa waith. Dylid defnyddio ffynonellau eilaidd, fel efelychiannau a data wedi eu cyhoeddi hefyd i roi profiad i ymgeiswyr o ymchwil na allent fod wedi ei gael eu hunain. Nod unedau a asesir yn fewnol yw asesu a all ymgeiswyr feddwl fel ymarferwyr mewn sefyllfa gysylltiedig â gwaith.

8.2 Asesu gwaith grŵp

- Efallai y bydd angen i ymgeiswyr weithio mewn grwpiau i gasglu data mewn meysydd lle y gall ystyriaethau diogelwch atal gwaith unigol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae hi'n bwysig bod yr ymgeisydd yn cynhyrchu gwaith y mae modd ei adnabod yn benodol.
- Cydnabyddir bod achlysuron lle y mae angen i ymgeiswyr wneud tasgau fel rhan o grŵp a lle mae sgiliau gwaith grŵp yn rhan annatod o'r gofynion asesu. Yn yr achos hwn mae'r gofynion a'r cyfarwyddiadau penodol yn yr uned unigol yn cymryd lle'r cyfarwyddiadau cyffredinol ar waith grŵp.

8.3 Goruchwyllo/Dilysu

- Rhaid i waith ymgeiswyr ar gyfer asesiad gael ei wneud mewn amodau sy'n caniatáu i'r athro oruchwyllo'r gwaith a rhoi modd iddo gael ei ddilysu. Gall y gwaith ddigwydd y tu allan i'r ganolfan, fodd bynnag rhaid gwneud digon o waith o dan oruchwyliaeth i ganiatáu dilysu gwaith cyfan yr ymgeisydd yn hyderus.
- Bydd disgwyl i'r athro sy'n gyfrifol am oruchwyllo gwaith yr ymgeisydd ardystio, trwy gwblhau taflen glawr fod y marciau a gyflwynwyd wedi eu dyfarnu yn unol â'r fanyleb a'r Cyfarwyddiadau ac Arweiniad i Athrawon ac mai eiddo'r ymgeisydd o dan sylw yw'r gwaith. Dylid nodi math a graddau'r cymorth a roddwyd yn y golofn sylwadau.
- Rhaid i unrhyw ddeunydd a ddarperir gan yr athro, neu a ymchwiliwyd o ffynonellau eraill, e.e. y rhyngrwyd, cael eu cydnabod yng nghyflwyniad yr ymgeiswyr. Derbynnir y gall rhannau penodol o waith cwrs ymgeisydd gael eu cymryd o ffynonellau eraill lle y mae'r rhain yn berthnasol ac yn briodol. Mae hyn yn gwbl dderbyniol ar yr amod fod yr holl achosion o'r fath wedi eu nodi'n glir yn y testun ac wedi eu cydnabod yn llawn.

8.4 Cyfrinachedd

Wrth gwblhau gwaith ar gyfer unedau gall ymgeiswyr godi materion am gyfrinachedd.

Cynigir y cyngor a'r arweiniad canlynol i ymgeiswyr ac i athrawon.

- Rhaid i ymgeiswyr bob amser geisio caniatâd unigolion, yn ysgrifenedig os oes modd, cyn eu cyfweld.
- Rhaid i ymgeiswyr bob amser ei gwneud hi'n glir i unigolion y gall eraill ddarllen y wybodaeth a roddant, e.e. athrawon a safonwyr.
- Rhaid i ymgeiswyr beidio â throsglwyddo'r wybodaeth a gafwyd i unrhyw un ar wahân i'r rhai y'i bwriadwyd ar eu cyfer.
- Rhaid i ymgeiswyr ddiogelu anhysbysrwydd yr unigolion trwy ddefnyddio enwau ffug am yr unigolion eu hunain ac am unigolion eraill y cyfeirir atynt, a, lle y bo'n briodol, newid enwau lleoedd neu unrhyw enwau a ffeithiau eraill a allai helpu i adnabod yr unigolion.
- Rhaid i ymgeiswyr beidio â chofnodi gwybodaeth am unigolion a allai fod â goblygiadau cyfreithiol.

8.5 Safoni mewnol

Lle y mae mwy nag un athro'n cymryd rhan mewn dysgu ac asesu gwaith, mae disgwyl i ganolfannau sicrhau bod safoni mewnol wedi digwydd. Gall hyn fod ar sawl ffurf: marcio ffolderi cyffredin gan ddefnyddio deunydd enghreifftiol a ddarperir gan CBAC neu ddeunydd archif y ganolfan ei hun; trawsfarcio tasgau neu adrannau wrth iddynt gael eu cynhyrchu; ailasesiad o sampl o ffolderi o bob grŵp ar ddiwedd y cwrs.

Tra bod trafodaeth barhaus o feini prawf gosod tasgau ac asesu'n bwysig i gael dull cyson o fewn y ganolfan, argymhellir bod un athro'n cymryd cyfrifoldeb am wirio dibynadwyedd trefn restrol y ganolfan. Bydd y safonwr yn croesawu tystiolaeth o safoni mewnol. Rhaid i'r marc(iau) a gytunwyd yn derfynol gael ei/eu nodi'n glir.

Mae'n ofynnol i'r ganolfan anfon taflen sampl asesu'n cadarnhau bod marcio'r gwaith wedi cael ei safoni. Os mai un athro'n unig sydd wedi gwneud y marcio, rhaid i'r person hwn lofnodi'r ffurflen.

Os yw ymgeisydd yn dioddef o anabledd sydd wedi effeithio ar ei waith, neu wedi bod yn absennol oherwydd salwch am gyfnod estynedig dylid gwneud cais am ystyriaeth arbennig i CBAC ar yr adeg briodol gyda thystiolaeth feddygol

8.6 Safoni Allanol

Yn wyneb pwysiad unedau a asesir yn fewnol a chael pob un wedi'i hardystio'n unigolyn, bydd safonwyr ymgynghorol ar gael i roi cyngor ac i gefnogi canolfannau newydd wrth baratoi a marcio asesiadau. Cynghorir canolfannau sydd am wneud hyn i gysylltu â CBAC erbyn 30 Hydref yn y flwyddyn cyn cyflwyno. **Nid** yw hyn yn ofyniad ond anogir cysylltu â'r safonwr i sicrhau bod y broses safoni'n mynd yn ei blaen yn esmwyth.

Cyhoeddir dyddiadau cyflwyno marciau unedau i CBAC a samplau gwaith i'r safonwr. Bydd angen i ddyddiadau terfyn mewnol ganiatáu ar gyfer cwblhau unrhyw safoni mewnol. Dylai'r sampl angenrheidiol ar gyfer safoni gael ei ddewis gan y ganolfan gan ddefnyddio'r fformiwla a geir yn Llawlyfr Asesu Mewnol CBAC. Y fformiwla yw:

Cyfanswm nifer ymgeiswyr	Gwaith i'w gyflwyno (Niferoedd yn perthyn i'r drefn restrol)
1 – 10	Y cyfan
11 – 19	1 ^{af} a phob ail (1, 3, 5, 7 ac ati)
20 – 29	1 ^{af} a phob trydydd (1, 4, 7, 10 ac ati)
30 – 59	1 ^{af} a phob pedwerydd (1, 5, 9, 13 ac ati)

Mae CBAC yn cadw'r hawl i ofyn am samplau pellach neu am waith holl gofrestrïadau'r ganolfan. Gall y drefn safoni arwain at beth addasu o'r marciau a asesir yn fewnol ar gyfer pob ymgeisydd ond nid newid fel arfer yn y drefn restrol. Bydd y safonwr yn dychwelyd y gwaith yn uniongyrchol i'r ganolfan cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl cwblhau'r safoni.

Rhoddir gwybod i bob canolfan am y marciau wedi'u safoni a ddyfarnwyd a bydd pob canolfan yn derbyn adroddiad gan y safonwr ar bob uned sy'n ymwneud â phriodoldeb y tasgau a osodwyd, cymhwyso'r meini prawf a safonau marcio a gweinyddu.

Caiff gwaith yr ymgeiswyr ei ddychwelyd i'r ganolfan ar ôl yr arholiad, serch hynny gofynnir i ganolfannau gadw'r gwaith o dan glo nes y bydd yr amser ar gyfer apelio wedi mynd heibio.

Mae CBAC yn rhoi cyfle i athrawon gynnal sgwrs â'r Prif Arholwyr a Safonwyr trwy gyfrwng y ddarpariaeth HMS.



UG IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

UNED

HYSBYSIAD I YMGEISYDD

Rhaid mai eich gwaith eich hun sy'n cael ei gyflwyno gennych i'w asesu.

Os ydych yn copïo gan rywun arall, neu'n caniatáu i ymgeisydd arall gopïo gennych chi, neu os ydych yn twyllo mewn unrhyw ffordd arall, efallai y cewch eich diarddel o'r pwnc dan sylw o leiaf.

Datganiad gan yr ymgeisydd

Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeisydd** (uchod). Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith sydd ynghlwm heb gymorth ac eithrio'r hyn y mae fy athro/athrawes wedi ei egluro sy'n dderbyniol yn y fanyleb.

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad:

.....

.....

Datganiad gan yr athro/athrawes

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gynnal o dan amodau a nodir yn y fanyleb.

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwy'n fodlon hyd at eithaf fy ngwybodaeth mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r gwaith a gyflwynir.

Llofnod yr athro/athrawes:

Dyddiad:

.....

.....


**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL
(UG)**
UNED

Enw'r Ganolfan: _____ Rhif y Ganolfan: _____

Enw'r Ymgeisydd: _____ Rhif yr Ymgeisydd: _____

Ticiwch yr uned.

Uned 2
Uned 3
Uned 4

Amcan Asesu	Mwyafswm marciau	Marc yr Ymgeisydd	Sylw/Cyfiawnhad (os oes angen)
AA1			
AA2			
AA3			
AA4			
Cyfanswm marciau'r uned	100		



U2 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

UNED

HYSBYSIAD I YMGEISYDD

Rhaid mai eich gwaith eich hun sy'n cael ei gyflwyno gennych i'w asesu.

Os ydych yn copïo gan rywun arall, neu'n caniatáu i ymgeisydd arall gopïo gennych chi, neu os ydych yn twyllo mewn unrhyw ffordd arall, efallai y cewch eich diarddel o'r pwnc dan sylw o leiaf.

Datganiad gan yr ymgeisydd

Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeisydd** (uchod). Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith sydd ynghlwm heb gymorth ac eithrio'r hyn y mae fy athro/athrawes wedi ei egluro sy'n dderbyniol yn y fanyleb.

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad:

.....

.....

Datganiad gan yr athro/athrawes

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gynnal o dan amodau a nodir yn y fanyleb.

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwy'n fodlon hyd at eithaf fy ngwybodaeth mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r gwaith a gyflwynir.

Llofnod yr athro/athrawes:

Dyddiad:

.....

.....



IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL (U2)	UNED
---	-------------

Enw'r Ganolfan: _____ Rhif y Ganolfan: _____

Enw'r Ymgeisydd: _____ Rhif yr Ymgeisydd: _____

Ticiwch yr uned.

Uned 9

Uned 10

Uned 11

Uned 12

Amcan Asesu	Mwyafswm marciau	Marc yr Ymgeisydd	Sylw/Cyfiawnhad (os oes angen)
AA1			
AA2			
AA3			
AA4			
Cyfanswm marciau'r uned	100		



U2 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

UNED 7

Aseiniad gwaith cwrs

Enw'r Ymgeisydd: _____

Rhif yr Ymgeisydd: _____

Enw'r Ganolfan: _____

Rhif y Ganolfan: _____

Rhif Aseiniad: _____

HYSBYSIAD I YMGEISYDD

Rhaid mai eich gwaith eich hun sy'n cael ei gyflwyno gennych i'w asesu.

Os ydych yn copïo gan rywun arall, neu'n caniatáu i ymgeisydd arall gopïo gennych chi, neu os ydych yn twyllo mewn unrhyw ffordd arall, efallai y cewch eich diarddel o'r pwnc dan sylw o leiaf.

Datganiad gan yr ymgeisydd

Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeisydd** (uchod). Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith sydd ynghlwm heb gymorth ac eithrio'r hyn y mae fy athro/athrawes wedi ei egluro sy'n dderbyniol yn y fanyleb.

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad

.....

.....

Datganiad gan yr athro/athrawes

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gynnal o dan amodau a nodir yn y fanyleb.

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwy'n fodlon hyd at eithaf fy ngwybodaeth mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r gwaith a gyflwynir.

Llofnod yr athro/athrawes:

Dyddiad:

.....

.....



UG IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

ASHSCI

TAFLEN SAMPL Y PORTFFOLIO

Cyfanswm nifer yr ymgeiswyr a gyflwynwyd am y gydran hon:

Ticiwch un blwch.

Uned 2

Uned 3

Uned 4

Enw'r Ganolfan	Rhif y Ganolfan

Rhif Arholiad yr Ymgeisydd	Enw'r Ymgeisydd (Cyfenw'n gyntaf) PRIF LYTHRENAU	Grŵp Addysgu	Marc y Ganolfan	Marc y Safonwr		Defnydd swyddfa'n unig

Athro Pwnc	Dyddiad	Safonwr
------------	---------	---------

